

Arolwg Masnach Cymru: 2018

Adroddiad Technegol

Cynnwys

Rhestr tablau	2
Rhestr Ffigurau.....	2
Rhestr termau.....	3
Talfyriadau.....	4
1. Trosolwg	5
2. Y Sampl	10
3. Llinell amser.....	12
4. Cysylltu â busnesau drwy'r post.....	13
5. Cwblhau'r arolwg.....	13
6. Busnesau'n cysylltu.....	17
7. Cymorth arall a gynigiwyd i fusnesau	17
8. Cyfraddau ymateb.....	18
9. Dilysu	20
10. Dadansoddi.....	20
11. Atodiadau.....	29

Cyswllt: Cerys Ponting ~ 0300 025 7342 ~ ystadegau.masnach@llyw.cymru Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099

Ymholiadau cyhoeddus : 0300 025 5050

Twitter: [@statisticswales](https://twitter.com/statisticswales)

Rhestr tablau

Tabl 1: Strata'r Sampl.....	11
Tabl 2: Cynnwys yr arolwg.....	13
Tabl 3: Yr amser cyfan a dreuliyd yn cwblhau'r arolwg yn ôl yr ymatebwyr eu hunain, wedi ei rannu yn ôl maint y busnes	15
Tabl 4: Y costau amcangyfrifedig a roddwyd gan yr ymatebwyr eu hunain, wedi eu grwpio yn ôl maint y cwmni	16
Tabl 5: Manylion yr ymarfer mynd ar ôl ymatebion yn ôl cyfrifiad o'r ceisiadau	18
Tabl 6: Cyfraddau ymateb yn ôl maint y busnes	19
Tabl 7: Cyfraddau ymateb yn ôl sector y busnes	19
Tabl 8: Grwpiau maint y busnesau	21
Tabl 9: Grwpio'r sectorau.....	21
Tabl 9: Enghraifft o sefyllfaoedd pan ddefnyddiwyd priodoli.....	23
Tabl 11: Categoriâu'r Grwpiau Priodoli	24
Tabl 12: Enghraifft o gyfuniadau o gyrchnodau.....	25
Tabl 13: Enghraifft o'r ffordd y defnyddiwyd cyfraneddau cyfartalog	25
Tabl 14: Y newidynnau a ddefnyddiwyd i gyfrifo pwysoliad y nifer na roddodd ymateb	27
Tabl 15: Grwpio'r gridiau pwysoli	27
Tabl 16: Y pedwar pwysoliad terfynol	28

Rhestr Ffigurau

Ffigur 1: Trosolwg o'r daith data	7
Ffigur 2: Llinell amser y gwaith maes ar y prif gam	12

Rhestr termau

Term	Diffiniad
Wedi peidio masnachu	Nid yw busnes sydd wedi peidio masnachu yn gweithredu nac yn cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd mwyach.
Segur	Cwmni segur yw cwmni sydd heb 'unrhyw drafodion cyfrifo arwyddocaol', mewn termau cyfreithiol, yn ystod blwyddyn ariannol.
Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data	Y rheoliad yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar ddiogelu data a phreifatwydd yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.
Nwyddau	Nwyddau neu ddefnyddiau o gynhyrchiad y cwmni ei hun.
Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesau	Mae'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau yn rhestr gynhwysfawr o fusnesau'r Deyrnas Unedig a ddefnyddir gan y llywodraeth at ddibenion ystadegol.
Pryniannau	Pryniant unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan fusnes, gan gynnwys is-gontractio gwasanaethau, prynu nwyddau neu wasanaethau o rannau eraill o fusnes yr ymatebwr a phryniannau gan gyflenwyr y tu allan i Gymru (mewnforion) a'r DU (mewnforion rhyngwladol).
Gwerthiannau	Gwerthiant unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan fusnes i gwsmer, gan gynnwys is-gontractio gwasanaethau, darparu nwyddau neu wasanaethau i rannau eraill o fusnes ymatebwr a gwerthiannau a wneir i gwsmeriaid y tu allan i Gymru (allforion) a'r DU (allforion rhyngwladol).
Gwasanaethau	Darpariaeth neu gyflenwad gwasanaethau i fusnes neu gwsmer arall.

Talfyriadau

Talfyriad	Diffiniad
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
IDBR	Y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau
IFF	IFF Research
KAS	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
PAYE	Y cynllun treth incwm Talu Wrth Ennill
REU	Gweddill yr Undeb Ewropeaidd
RIM	Dull Iteraidd ar Hap
ROW	Gweddill y Byd
RUK	Gweddill y DU
SIC	Dosbarthiad Diwydiannol Safonol
AMC	Arolwg Masnach Cymru
LIC	Llywodraeth Cymru

1. Trosolwg

Cefndir

- 1.1 Cafodd IFF Research (IFF) ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru (LIC) i dreialu Arolwg Masnach Cymru (AMC) ar ei rhan. Roedd hwn yn arolwg newydd i gynhyrchu ystadegau arbrofol o wybodaeth a gasglwyd yn uniongyrchol gan fusnesau am lifoedd masnach i mewn ac allan o Gymru. Cafwyd y don gyntaf o waith maes rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Chwefror 2020.
- 1.2 Deilliodd y rhesymwaith ar gyfer yr arolwg hwn o'r ffaith bod angen sail dystiolaeth fwy manwl i danategu gwaith llunio polisiau LIC. Roedd rhagor o dystiolaeth yn golygu bod Llywodraeth Cymru'n gallu:
 - deall economi Cymru yn well, gan gynnwys y dolenni cyswllt rhwng busnesau Cymru a busnesau mewn rhannau eraill o'r DU a thramor.
 - asesu'n fwy cywir sut y gallai cysylltiadau masnachu arfaethedig y DU yn y dyfodol effeithio ar fusnesau Cymru a'r economi ehangach.
- 1.3 Roedd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am:
 - osod y cwmpas ar gyfer cynnwys yr arolwg;
 - oruchwylio prawf gwybyddol o fersiwn cynnar o'r arolwg;
 - greu'r sampl;
 - osod fframwaith llywodraethu ar gyfer goruchwylio'r Arolwg gyda rhanddeiliaid allweddol LIC; a
 - chomisiynu gwaith maes y prif gam a'r dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg.
- 1.4 Comisiynwyd IFF i:
 - gasglu data gan y busnesau oedd yn ymateb;
 - fynd ar ôl busnesau oedd heb gwblhau'r arolwg erbyn dyddiad cau'r arolwg;
 - ddilysu data'r busnesau oedd yn ymateb drwy ymchwil ddesg a galwadau ffôn i sicrhau eglurhad;
 - baratoi a darparu diweddariadau am y data, a'r ffeil ddata derfynol, i Lywodraeth Cymru; a
 - chynhyrchu amcangyfrifon o fasnach Cymru o'r ymatebion i'r arolwg.
- 1.5 Mae'r adroddiad technegol hwn yn rhoi trosolwg o gasgliad y data, gan gynnwys cynrychioliad gweledol o'r daith data, ac mae'n amlinellu llinell amser yr arolwg. Mae'r [adroddiad canfyddiadau](#) yn rhoi manylion canlyniadau'r arolwg.

Strwythur yr Adroddiad

1.6 Mae'r adroddiad technegol hwn yn ymdrin â phob elfen o broses gasglu a darparu data'r Arolwg. Mae'n rhoi trosolwg o'r prosiect, o'r cysylltiad cyntaf drwy'r post â busnesau yn y sampl, hyd y prosesau dilysu, priodoli a phwysoli. Dyma strwythur cyffredinol yr adroddiad:


- **1: Trosolwg**, yn rhoi manylion y broses o gasglu data a'r daith data, y rheswm am y dull a ddewiswyd a gwybodaeth am yr astudiaeth beilot.
- **2: Y Sampl** yn nodi sut y dewiswyd y sampl a pha fusnesau a gynhwyswyd yn y strategaeth samplu.
- **3: Llinell amser** yn amlinellu ffrâm amser y prosiect, ac mae'n cynnwys siart Gantt sy'n dangos llinell amser y gwaith maes ar y prif gam
- **4: Cysylltu â busnesau drwy'r post** yn disgrifio'r gwahoddiad a'r llythyrau atgoffa a anfonwyd at fusnesau.
- **5: Cwblhau'r arolwg** yn rhoi trosolwg o gynnwys yr arolwg a chrynodeb o amrywiol fetrigau ymateb, gan gynnwys yr amser a dreuliodd yn cwblhau'r arolwg, y costau a nodwyd, nifer yr ymatebion a gwblhawyd yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac ymatebion dros y ffôn.
- **6: Busnesau'n cysylltu** yn rhoi manylion yr hyfforddiant a gafodd y cyfwelwyr ffôn a'r ymholiadau a dderbyniwyd oddi wrth fusnesau dros y ffôn a'r e-bost.
- **7: Cymorth arall a gynigiwyd i fusnesau** yn rhoi gwybodaeth am y dogfennau Cwestiynau Cyffredin a ddarparwyd i'r busnesau yn y sampl a'r ffonio a wnaethpwyd i fynd ar ôl ymatebion drwy gydol y gwaith maes, gan gynnwys sut y canfuwyd rhifau ffôn. Mae manylion hefyd am ganlyniad y gwaith mynd ar ôl ymatebion.
- **8: Cyfraddau ymateb** yn rhoi crynodeb o'r cyfraddau ymateb a gafwyd.
- **9: Dilysu** yn rhoi manylion y broses ddilysu ac yn cynnwys gwiriadau dilysu 'meddal' o fewn yr arolwg a'r meini prawf a sefydlwyd ar gyfer 'methu' dilysiad, yn ogystal â metrigau perthnasol.
- **10: Dadansoddiad** yn disgrifio'r fethodoleg dadansoddi, briodoli a phwysoli; y nifer o achosion lle priodolwyd gwerth a'r rhesymeg pwysoli.

Mae rhestr o'r sectorau a gynhwyswyd yn y sampl ac a eithriwyd o'r sampl, llythyrau enghreifftiol a anfonwyd at fusnesau drwy gydol y gwaith maes, rhagor o fanylion am y broses ddilysu yn ogystal â sgrïpt gyflawn yr arolwg i'w cael yn yr [Atodiadau](#) i'r adroddiad hwn.

Casglu data a'r daith data gyffredinol

- 1.7 Gweithredwyd yr arolwg gan ddefnyddio dull o 'wthio i'r we'. I ddechrau, anfonwyd llythyr gwahodd dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y post at y busnesau yn y sampl yn eu hannog i fynd ar-lein a chwblhau holiadur AMC ar y we [Ffigur 1].
- 1.8 Cyfeiriwyd y llythyrau gwahodd naill ai at y cyswllt enwebedig oedd wedi ei nodi yn y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau¹ (IDBR), neu, os nad oedd cyswllt enwebedig, at ysgrifennydd y cwmni. Rhoddodd y llythyr gwahodd drosolwg byr i fusnesau o'r AMC a'r hyn oedd yn ofynnol gan bob busnes; rhoddodd gyfarwyddiadau ar sut i agor yr arolwg; a rhoddodd fanylion gwefan yr arolwg a chod mynediad unigryw'r busnes i agor yr arolwg.
- 1.9 Pan oedd busnesau'n ymweld â gwefan yr arolwg, roedd yn gofyn iddynt nodi'r cod mynediad a ddarparwyd yn eu llythyr gwahodd. Roedd hyn yn caniatáu i fusnesau agor yr arolwg a dechrau ateb cwestiynau.

Ffigur 1: Trosolwg o'r daith data



¹[Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

- 1.10 Mi oedd yr arolwg yn gwirfoddol, ond cafodd busnesau eu hannog i gymryd rhan yn y llythyr cychwynnol ac mewn dau lythyr atgoffa. Anfonwyd yr ail lythyr atgoffa am fod y cyfraddau ymateb yn isel ar y cychwyn ac oherwydd y ffaith bod y gwyliau Nadolig yn digwydd yn ystod cyfnod y gwaith maes a'i fod yn debygol o amharu ar y broses. Yn ogystal, aeth IFF ar ôl ymatebion a chafodd busnesau eu hatgoffa am yr arolwg drwy rwydweithiau LIC a gan reolwyr cyfrif LIC oedd â chysylltiadau yn barod â busnesau perthnasol.
- 1.11 Os oedd angen i'r ymatebwyr gymryd egwyl wrth gwblhau'r arolwg a dod yn ôl ato eto (neu os oedd angen i fwy nag un person lenwi'r arolwg), gallent wneud hynny drwy nodi eu cod mynediad eto. Pan oeddent yn mynd yn ôl i mewn i'r arolwg, roeddent yn cael eu cymryd yn syth at y pwynt olaf yn yr arolwg lle'r oeddent wedi cyrraedd y tro diwethaf. Dim ond ar gyfer un ymateb arolwg y gallent ddefnyddio pob cod mynediad, felly dim ond un arolwg y gallai pob busnes ei gyflwyno.
- 1.12 Trwy gydol y daith data, cafodd y data i gyd ei storio'n ddiogel yn system storio ar-lein IBM Dimensions IFF. Lluniwyd adroddiadau wythnosol am y gyfradd ymateb (oedd yn dangos gwybodaeth debyg i hyn: ym mha adrannau o fewn yr arolwg yr oedd ymatebwyr yn oedi ac ym mha sectorau yr oedd ymatebwyr yn gweithio) gan ddefnyddio data am yr arolwg a lawrlwythwyd yn uniongyrchol o IBM Dimensions.

Y rheswm am y dull a ddewiswyd

- 1.13 Dewiswyd y dull 'gwthio i'r we' am ei fod yn ddull a allai fodloni'r nodau ac amcanion AMC ac a oedd yn gost effeithiol gan ystyried maint yr arolwg. Roedd gan yr IDBR gofnodion cyflawn o gyfeiriadau busnesau felly sicrhawyd bod gan y sampl amrywiaeth dda o fusnesau. Fodd bynnag, dim ond nifer gyfyngedig o gyfeiriadau e-bost oedd ganddi felly roedd angen anfon llythyr cychwynnol yn y post i gysylltu â busnesau a'u gwahodd i'r arolwg. Roedd y llythyr yn cyfeirio busnesau at yr arolwg ar-lein.
- 1.14 Am fod busnesau wedyn yn mynd ymlaen i gwblhau'r arolwg ar-lein:
- Roedd ymatebwyr yn gallu cymryd yr amser yr oeddent ei angen i ganfod yr wybodaeth berthnasol a gweld y cwestiynau ar yr un pryd;
 - Gallai data gael ei ddilysu'n "fyw" tra bo ymatebwyr yn cwblhau'r arolwg ei hun (er enghraifft, roedd meddalwedd yr arolwg yn sicrhau bod yr is-gyfansymiau trosiant yn adio at ei gilydd i roi'r cyfanswm cyffredinol). Roedd hyn o gymorth i sicrhau bod yr arolwg yn gallu cael gafael ar y maint gorau posib o ddata dilys a chywir;
 - Gallai meddalwedd yr arolwg gyfeirio ymatebwyr at ymatebion perthnasol yr oeddent wedi eu rhoi'n barod, yn gynharach yn yr arolwg, pan oedd hynny'n briodol gan leihau'r baich ar atebwyr;
 - Gellid monitro'r gyfradd ymateb mewn amser real. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth benderfynu a oedd angen cymryd camau ychwanegol i annog gwell ymateb.

- 1.15 Trwy ddefnyddio dull unigol yn hytrach na dulliau cymysg (e.e. holiadur ar-lein ac yn y post) nid oedd angen rhoi cyfrif am y gwahaniaethau rhwng y dulliau na chyfuno data o wahanol ddulliau (e.e. o ymatebion drwy'r post ac ar-lein). Golygai hyn hefyd mai'r dull hwn oedd y mwyaf cost-effeithiol.

Profi gwybyddol a Threialu

- 1.16 Comisiynwyd Opinion Research Services gan KAS Llywodraeth Cymru i roi holiadur papur cynharach drwy brawf gwybyddol. Bu tri deg dau o fusnesau'n cyfranogi, ac roedd y prawf o gymorth i hysbysu holiadur AMC ar y cam treialu ac ar y prif gam. Dyma rywfaint o'r adborth a gafwyd gan fusnesau a gymerodd ran yn y prawf:
- Roedd yn well gan y mwyafrif o'r busnesau gwblhau'r math hwn o arolwg ar-lein, gydag arweiniad wedi'i integreiddio yng nghorff yr arolwg drwyddo draw;
 - Lle bo'r gofyn, roedd yn well gan fusnesau ddarparu rhifau gwirioneddol gwerthoedd, yn hytrach na chanrannau o werthoedd, os oedd amcangyfrifon yn dderbyniol;
 - Roedd angen darparu mwy o arweiniad i fusnesau ynglŷn â sut i gyfrifo ffigurau Cymru;
 - Roedd angen rhoi gwell esiamplau i'r ymatebwyr i'w helpu i gwblhau'r arolwg;
 - Roedd busnesau'n fodlon cwblhau ar gyfer 2018 a 2017, ond roedden nhw'n teimlo bod angen i'r cwestiynau fod yn fwy eglur ynglŷn â pha flwyddyn yr oeddent yn gofyn amdani.
- 1.17 Cynhaliwyd arolwg peilot cyn arolwg y prif gam, ac anfonwyd llythyr gwahodd cychwynnol at 100 o fusnesau ar 9 Hydref 2019 a llythyr atgoffa ar 4 Tachwedd 2019. Cymerodd 3 busnes ran yn y cyfnod peilot cychwynnol hwn, a chwblhaodd 12 arall yr arolwg ar ôl anfon y llythyr atgoffa.
- 1.18 Roedd ffocws y peilot ar brofi'r platfform meddalwedd ac asesu unrhyw adborth gan fusnesau am gwestiynau'r arolwg. Felly, bach oedd maint sampl y peilot ac nid oedd yn cynnwys yr elfen o fynd ar ôl ymatebion dros y ffôn - elfen a gyflwynwyd yn ystod y prif gam. Cafodd y busnesau a gwblhaodd yn ystod y peilot eu cynnwys yng nghofnodion y prif gam unwaith y cafodd hwnnw ei lansio.
- 1.19 Rhwng y peilot a gwaith maes y prif gam, bu dadansoddwyr yn KAS yn adolygu'r holiadur a chafodd yr holl gwestiynau eu cadw. Ond, mireiniwyd rhywfaint ar y geiriad er mwyn symleiddio'r cwestiynau ac er mwyn helpu i ostwng yr amser yr oedd yn ei gymryd i gwblhau'r arolwg ar y prif gam.

2. Y Sampl

- 2.1 Bu ystadegwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyngor Methodoleg yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i ddewis cwmnïau gan ddefnyddio samplu strata ar hap gan yr IDBR. Dewiswyd y dull hwn er mwyn gostwng gwallau samplu gan hefyd sicrhau lefel uwch o gynrychiolaeth. Mae'r broses o samplu strata ar hap yn gofyn rhannu'r boblogaeth fusnes dan sylw yn is-boblogaethau cyn defnyddio'r dulliau samplu ar hap gyda phob un o'r is-boblogaethau i ffurfio grŵp prawf. Datblygwyd y dull hwn i sicrhau fod pob is-grŵp (strata) o ddiddordeb wedi eu cynrychioli'n gywir yn y ffrâm samplu, gan ddarparu gwell ymdriniaeth felly o boblogaeth fusnes Cymru yn ei chyfanrwydd i gyflawni amcanion AMC.
- 2.2 Yr ONS sy'n gweinyddu'r IDBR ac mae'r swyddfa hon yn dal cofnodion yr holl fusnesau sy'n gofrestredig ar gyfer TAW a'r holl fusnesau sy'n gweithredu cynllun treth incwm talu wrth ennill (PAYE). Er nad oes gan yr IDBR fanylion y poblogaethau busnes i gyd,² y farn gyffredinol yw mai hon yw'r ffynhonnell 'swyddogol' fwyaf cywir a chynhwysfawr o ddata poblogaeth fusnes sydd ar gael. Mae'r IDBR yn cynnwys manylion am faint a sector busnesau a defnyddiwyd y rhain i ddewis y sampl a grosio'r canlyniadau er mwyn cynhyrchu'r amcangyfrifon terfynol. Mae hefyd yn cynnwys cyfeiriad busnes a gwybodaeth gyswllt ar gyfer cysylltu â'r busnesau yn y sampl. Hwn hefyd yw'r dull safonol a ddefnyddir ar gyfer arolygon tebyg ledled y Deyrnas Unedig, ac felly roedd yn addas ar gyfer AMC.
- 2.3 Digwyddodd y samplu ar lefel yr uned adrodd ei hun, a gofynnwyd i unedau dethol ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â gweithgareddau eu hunedau lleol yng Nghymru. Y strata a roddwyd i'r sampl oedd band maint y gyflogaeth, nifer yr unedau lleol yng Nghymru a'r sector diwydiannol (Dosbarthiad Diwydiannol Safonol³ (SIC) ar y lefel 2 ddigid).
- 2.4 Nid oedd y sampl yn cynnwys busnesau o'r sectorau diwydiannol dilynol: gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyniad, gwasanaethau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol, gweithgareddau cartrefi fel cyflogwyr a sefydliadau alldiriogaethol. Roedd busnesau oedd â statws cyfreithiol penodol wedi eu heithrio hefyd o'r sampl, sef sefydliadau awdurdod lleol, llywodraeth leol a'r mwyafrif o gyrff nid-er-elw (cafodd prifysgolion eu cynnwys). Mae rhestr gyflawn o'r sectorau a gynhwyswyd ac a eithriwyd yn [Atodiad A](#).
- 2.5 Ar ôl ystyried yr holl eithriadau, detholwyd cyfranogwyr yr arolwg o boblogaeth o oddeutu 34,000 o unedau adrodd oedd â gweithgarwch yng Nghymru ac a oedd yn cyflogi tri neu fwy o bobl.

² Am fod yr IDBR yn deillio'n bennaf o gofnodion TAW a PAYE Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, nid oedd unrhyw fusnesau oedd heb gynllun Talu wrth Ennill neu oedd yn is na'r trothwy TAW wedi eu cynnwys yn y gofrestr. [Mae rhagor o fanylion yma am ffynonellau data IDBR](#).

³ [Dosbarthiad diwydiannol safonol y DU o weithgareddau economaidd \(SIC\)](#)

- 2.6 Roedd y sampl yn cynnwys pob uned adrodd oedd yn cyflogi 20 neu fwy (5,961 o gofnodion), a phob un oedd yn cyflogi 3-19 a dwy neu fwy o unedau lleol yng Nghymru [Tabl 1].

Tabl 1: Strata'r Sampl

Maint cyflogaeth	Nifer yr unedau lleol yng Nghymru	Canran y cofnodion a ddetholwyd	Y cofnodion a ddetholwyd
20 +	1 neu fwy	100%	5,961
3 – 19	2 neu fwy	100%	805
3 – 19	1	4%	1,234

Ffynhonnell: IDBR

- 2.7 Cymerwyd sampl strata ar hap o'r busnesau oedd yn weddill yn y band maint cyflogaeth 3-19 (rheiny oedd ag un uned leol yn unig yng Nghymru). Rhannwyd y busnesau hyn ymhellach yn ôl maint cyflogaeth ('3 i 9' a '10 i 19') a'r sector diwydiannol (yr adran yn y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol [SIC]), a gyda'i gilydd rhoddodd hyn 2,039 o gofnodion [Tabl 1]. Dyrannwyd y sampl hwn ar sail trosiant yr adran yn y SIC; cafodd y sectorau oedd â chyfanswm trosiant uwch fwy o gyfran yn y sampl. Gwnaed rhagor o addasiadau i'r dyraniad sampl er mwyn osgoi gor-samplu neu beidio samplu'n ddigonol o fewn yr is-fandiau.
- 2.8 Trwy samplu cyfran fechan o fusnesau oedd yn cyflogi 3-19 ac oedd ag un uned leol yng Nghymru, sicrhawyd bod yr arolwg yn cynnwys pob band maint gan hefyd ostwng y baich cyffredinol a roddwyd ar fusnesau a chadw maint y sampl yn ymarferol a chost-effeithiol. Y rheswm am or-gynrychioli busnesau mwy yn y sampl, ynghyd â'r busnesau hynny oedd â nifer o weithrediadau yng Nghymru, oedd er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn cipio cyfran fawr o economi Cymru (trosiant cyfan IDBR Cymru). Amcangyfrifwyd bod yr 8,000 o fusnesau yn y sampl yn cyfrif am 89% o'r trosiant yng Nghymru (o fusnesau gyda chyflogaeth o 3 neu fwy)

4. Cysylltu â busnesau drwy'r post

Llythyrau gwahodd ac atgoffa

- 4.1 I ddechrau, anfonwyd llythyr gwahodd dwyieithog yr arolwg at y busnesau oedd yn y sampl ar gyfer Arolwg Masnach Cymru ar 19 Tachwedd 2019. Roedd hwn yn rhoi gwybod iddynt am yr arolwg a sut y gallent ei gwblhau (mae copi i'w weld yn [Atodiad B](#)).

Llythyrau atgoffa

- 4.2 Anfonwyd llythyrau atgoffa dwyieithog ar 5 Rhagfyr 2019 at y rheiny oedd heb gwblhau'r arolwg eto, yn esbonio bod y dyddiad cau wedi ei ymestyn hyd 29 Ionawr 2020. Er mwyn ceisio rhoi hwb i'r gyfradd ymateb, anfonwyd un arall ar 10 Ionawr 2020 yn atgoffa busnesau am yr arolwg yn dilyn cyfnod gwyliau'r Nadolig. [[Atodiad C](#) ac [Atodiad D](#)].
- 4.3 Roedd y llythyrau atgoffa'n cynnwys brawddeg agoriadol mewn ffont mawr a thrwm i annog busnesau i gyfranogi. Brawddeg agoriadol y llythyr atgoffa cyntaf oedd "Helpwch ni i wneud Cymru yn lle gwell i wneud busnes", a'r frawddeg yn yr ail oedd "Helpwch ni i ddeall anghenion eich busnes wrth i ni baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd – eich cyfle olaf i gyfranogi!".

5. Cwblhau'r arolwg

- 5.1 Amlinelliad o gynnwys yr arolwg
- 5.2 Tabl 2 Roedd pedair adran yn yr arolwg [Tabl 2].

Tabl 2: Cynnwys yr arolwg

Yr adran am y cefndir	Yn cynnwys cwestiynau am leoliad pencadlys y busnesau oedd yn ymateb, nifer y bobl oedd wedi eu cyflogi yn eu gweithrediadau yng Nghymru ac a oedd y gweithrediadau hynny wedi cynhyrchu unrhyw werthiannau yn 2017 neu 2018. Os nad oedd busnesau wedi gwneud unrhyw werthiannau yn 2017 neu 2018, gofynnwyd iddyn nhw ddweud pam.
Yr adran am werthiannau	Yn cynnwys cwestiynau (mewn perthynas â 2017 a 2018) am werth cyfan y gwerthiannau a'r allforion o ran nwyddau a gwasanaethau. Gofynnwyd i fusnesau a ymatebodd roi manylion eu ffigurau nwyddau a gwasanaethau yn ôl gwerth eu gwerthiannau i Gymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, gweddill yr Undeb Ewropeaidd a gweddill y byd, yn ogystal â'r 5 prif gyrchnod a nwydd/gwasanaeth allforio.
Yr adran am bryniannau	Yn cynnwys cwestiynau (mewn perthynas â 2017 a 2018) am werth cyfan y pryniannau a'r mewnforion o ran nwyddau a gwasanaethau. Gofynnwyd i fusnesau a ymatebodd roi manylion eu ffigurau nwyddau a

gwasanaethau yn ôl gwerth eu pryniannau o Gymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, gweddill yr Undeb Ewropeaidd a gweddill y byd, yn ogystal â'r 5 prif gyrchnod a nwydd/gwasanaeth mewnforio.

Yr adran derfynol

Gofynnwyd i fusnesau a ymatebodd amcangyfrif yr amser a gymerodd iddyn nhw gwblhau'r arolwg, y gost o'i lenwi, yn ogystal â dweud a oeddent yn fodlon i rywun gysylltu â nhw eto o naill ai IFF (i egluro unrhyw wybodaeth a roddwyd yn eu hatebion) neu LIC (os byddai hi'n penderfynu gwneud rhywfaint o waith ymchwil dilynol). Hefyd gofynnodd yr adran hon am unrhyw wybodaeth neu sylwadau ychwanegol yr oedd y busnesau a ymatebodd eisiau eu rhoi.

- 5.3 Mae sgript gyflawn yr arolwg i'w chael yn [Atodiad E](#), sy'n nodi'r hyn y gofynnwyd i ymatebwyr eu cynnwys a'u heithrio o ran gwybodaeth am werthiannau, pryniannau, allforion a mewnforion eu busnes. Mae [Atodiad F](#) yn rhoi'r rhestr ategol o gynhyrchion wedi eu codio a ddefnyddiwyd yn yr arolwg.
- 5.4 Pan oedd hi'n bosibl, er mwyn gwneud yr arolwg mor fyr ag y bo modd a gostwng y baich ar yr ymatebwyr, trefnwyd y cwestiynau mewn ffordd oedd yn gadael i'r ymatebwyr neidio'n awtomatig heibio i dudalennau oedd yn amherthnasol iddynt.
- 5.5 Er na allai ymatebwyr neidio ymlaen drwy'r cwestiynau (oherwydd cyfyngiadau llywio), gallent symud yn ôl yn yr arolwg i adolygu a golygu eu hatebion blaenorol cyn cyflwyno'r arolwg.
- 5.6 Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr am wybodaeth ar gyfer 2018 a 2017 am mai un o amcanion y gwaith ymchwil oedd dechrau adeiladu data cyfres amser.

Metrigau'r ymateb

- 5.7 Roedd hi'n bosibl mynd i mewn i'r arolwg 24 awr y dydd yn ystod cyfnod y gwaith maes, er mai yn ystod oriau'r swyddfa yr oedd y cyfnodau prysur fel arfer. Yn ystod cyfnod y gwaith maes, aeth mwyafswm o 387 i mewn i'r arolwg ar un diwrnod (18 Rhagfyr 2019), a'r nifer uchaf o ymatebwyr a aeth i mewn i'r arolwg ar yr un pryd oedd 53.
- 5.8 Mae dwy ffynhonnell o ddata a allai gael eu hystyried wrth fesur yr amser a gymerwyd i gwblhau'r arolwg: data a gasglwyd gan y system pan gafodd arolygon eu cwblhau ar-lein, a'r ffigurau a ddarparwyd gan yr ymatebwyr eu hunain o fewn yr arolwg.
- 5.9 O ystyried metrigau'r system yn gyntaf, cofnodwyd yr amser cwblhau fel 49 munud ar gyfartaledd. Dim ond y busnesau a gwblhaodd yr arolwg o fewn diwrnod (613) sydd wedi eu cynnwys yn y cyfartaledd hwn o 49 munud. Nifer y busnesau a gwblhaodd yr arolwg dros ddiwrnod neu fwy (e.e. yn cychwyn ei lenwi ar Ddydd Llun ac yn clicio 'cyflwyno' ar y dydd lau) oedd 448, ac nid yw'n hysbys am sawl munud yn ystod y cyfnodau hyn yr oeddent yn gweithio ar yr arolwg.

5.10 Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau'n cynghori cyrff cyhoeddus sy'n casglu data ystadegol y dylai'r baich y mae'r arolwg yn ei roi ar ymatebwyr fod yn gyfatebol â'r buddion sy'n codi o ddefnyddio'r data a gasglwyd yn yr arolwg. Roedd hi'n bwysig felly i gynnwys cwestiwn o fewn yr arolwg yn gofyn i fusnesau amcangyfrif faint o amser y cymerodd yr arolwg i'w gwblhau er mwyn sicrhau'r wybodaeth hon o safbwynt yr ymatebwyr. Roedd y cwestiwn yn gofyn i'r ymatebwyr gynnwys:

- Yr amser a gymerwyd i ymgyswrtu â'r holiadur;
- Amser pawb a fu'n eu helpu i gwblhau'r holiadur;
- Yr amser a dreuliwyd yn tynnu gwybodaeth o'u systemau a'i pharatoi;
- Unrhyw amser arall a dreuliwyd mewn cysylltiad â'r holiadur.

5.11 Soniodd mwyafrif (83.2%) y micro fusnesau⁴ eu bod wedi cwblhau'r arolwg mewn llai na dwy awr, o'i gymharu â 71.4% o fusnesau bach a 68.5% o fusnesau canolig. Soniodd fwy na hanner y busnesau mawr (56.4%) eu bod wedi cwblhau mewn llai na dwy awr, gyda 29.5% yn sôn eu bod wedi treulio dros dair awr yn cwblhau'r arolwg [Tabl 3]⁵.

Tabl 3: Yr amser cyfan a dreuliwyd yn cwblhau'r arolwg yn ôl yr ymatebwyr eu hunain, wedi ei rannu yn ôl maint y busnes

	Micro (3-9) (a)	Bach (10-49) (b)	Canolig (50-249) (c)	Mawr (250+) (d)
<1 awr	63.2%	37.9%	29.2%	33.6%
1 awr i < 2 awr	20.0%	33.5%	39.3%	22.8%
2 awr i < 3 awr	11.6%	13.8%	13.1%	14.1%
3+ o oriau	5.3%	14.7%	18.4%	29.5%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) busnesau micro (95), (b) busnesau bach (448), (c) busnesau canolig (267), (d) busnesau mawr (149)

5.12 Roedd tuedd glir o gwblhau'r arolwg ar ddyddiau'r wythnos yn bennaf a chafodd ei gwblhau gan fwyaf yn ystod oriau busnes arferol.

⁴ Gwelwch y nodyn ar faint y busnes, paragraff 10.2 isod

⁵ Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys busnesau a ddywedodd eu bod wedi cymryd sero munud i gwblhau'r arolwg. Maent hefyd yn eithrio chwe busnes a ddywedodd eu bod wedi cymryd 24 awr neu'n hirach i gwblhau'r arolwg.

Y gost a nodwyd am gwblhau'r arolwg

- 5.13 Roedd cwestiwn yn yr Arolwg yn gofyn i'r ymatebwyr amcangyfrif faint yr oedd cwblhau'r arolwg wedi ei gostio i'w busnes, gan gynnwys amser unrhyw un a gymerodd ran yn y gwaith o lenwi'r arolwg.
- 5.14 O'r rheiny a nododd gostau amcangyfrifedig oedd yn gysylltiedig â chwblhau'r arolwg (971), roedd mwyafrif (53.9%) yn amcangyfrif bod yr arolwg wedi costio llai na £50 i'w busnes ei gwblhau. Trwy edrych ar y costau amcangyfrifedig o gwblhau'r arolwg mewn perthynas â maint y busnes, gwelir bod y mwyafrif o'r busnesau maint micro a bach wedi nodi costau o lai na £50. Roedd busnesau maint canolig a mawr yn fwy tebygol o sôn am gost amcangyfrifedig o fwy na £200, ond hyd yn oed yn y grŵp hwn roedd mwyafrif y busnesau'n sôn am gost o lai na £100 [Tabl 4].

Tabl 4: Y costau amcangyfrifedig a roddwyd gan yr ymatebwyr eu hunain, wedi eu grwpio yn ôl maint y cwmni

Cost cwblhau'r arolwg (£)	Micro (3-9) (a)	Bach (10-49) (b)	Canolig (50-249) (c)	Mawr (250+) (ch)
0	22.1%	12.1%	11.9%	19.7%
1 i <50	52.6%	42.3%	36.7%	28.9%
50 i <100	13.7%	20.7%	21.5%	17.1%
100 i <200	8.4%	15.4%	15.9%	18.4%
200+	3.2%	9.5%	14.1%	15.8%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Ffynhonell: Arolwg Masnach Cymru 2018

(a) busnesau micro (95), (b) busnesau bach (454), (c) busnesau canolig (270), (d) busnesau mawr (152)

Y nifer a gwblhawyd yn y Gymraeg a'r Saesneg

- 5.15 Roedd AMC yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan olygu ei fod yn cwrdd ag ymrwymiad LIC i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Rhoddwyd cyfle i ymatebwyr gwblhau'r arolwg naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg a gallent symud yn ôl ac ymlaen yn hawdd rhwng y ddwy iaith o ddechrau hyd ddiwedd yr arolwg wrth ei gwblhau ar-lein.
- 5.16 Doedd y system ond yn cofnodi'r wybodaeth am iaith pan oedd rhywun yn clicio 'cyflwyno' ar dudalen olaf yr arolwg, roedd hyn yn cofnodi'r iaith yr oeddent yn edrych arni ar y dudalen olaf. O'r 1,061 o ymatebwyr, cyflwynodd 1,058 yr arolwg yn y Saesneg a thri yn y Gymraeg, ond mae'n bosibl bod rhai o'r ymatebwyr wedi cwblhau rhannau o'r arolwg yn y Gymraeg.

Casglu data dros y ffôn

- 5.17 Mewn sefyllfaoedd lle na allai busnesau gwblhau ar-lein, gallai cyfwelwyr ffôn IFF gasglu data dros y ffôn. Am fod yr wybodaeth yr oedd yr arolwg yn ei chasglu'n gymhleth, dim ond fel opsiwn olaf y gwnaed hyn, pan oedd problemau technegol neu seilwaith o fewn y busnes yn eu hatal rhag

cwblhau ar-lein, neu os oedd data'r busnes yn weddol syml. Cwblhaodd 30 o ymatebwr yr arolwg dros y ffôn.

6. Busnesau'n cysylltu

- 6.1 Gallai busnesau gysylltu ag IFF a LIC dros y ffôn a'r e-bost gydag unrhyw ymholiadau oedd ganddynt mewn cysylltiad â'r arolwg. Yn gyfan, dros y cyfnod o 22 Tachwedd 2019 hyd 12 Chwefror 2020, derbyniwyd 973 o ymholiadau naill ai ar yr e-bost (103) neu dros y ffôn (636). Fel arfer, roedd y busnesau a gysylltodd eisiau optio allan o'r arolwg (323 o ymholiadau), eisiau gofyn am addasiad i'w manylion busnes, megis diweddarau eu cyfeiriad busnes (144 o ymholiadau) neu eisiau gofyn cwestiynau cyffredinol am yr arolwg (116 o ymholiadau).
- 6.2 Cofnododd y cyfwelwyr ffôn y 'llythyrau oedd wedi methu' ac yna gwnaethant ymchwil ddesg i ganfod manylion eraill ar gyfer y busnesau hyn. Dychwelwyd cyfanswm o 106 o lythyrau i IFF a chanfuwyd manylion wedi'u diweddarau ar gyfer 70 o'r busnesau hyn. Tynnwyd y 36 busnes oedd yn weddill o'r sampl cyfan posibl o 8,000 er mwyn cyfrifo cyfradd ymateb AMC.

7. Cymorth arall a gynigiwyd i fusnesau

Dogfennau Cwestiynau Cyffredin

- 7.1 Ochr yn ochr â'r llythyr gwahodd cychwynnol, anfonwyd taflen Cwestiynau Cyffredin at y busnesau, oedd yn cynnwys:
- manylion cefndir am AMC a'i bwysigrwydd i LIC;
 - gwybodaeth am IFF; sut i wirio bod yr arolwg yn ddilys;
 - sut y dewiswyd y busnesau;
 - tawelu'r meddwl am gyfrinachedd;
 - y dyddiad cau ar gyfer cwblhau; a
 - sut i gwblhau'r arolwg os nad oedd y busnes wedi'i seilio yng Nghymru yn bennaf, os nad oedd ganddo unrhyw ddata i'w adrodd neu os ydoedd wedi mynd i law'r gweinyddwyr/derbynnnydd.
- 7.2 Ar wefan yr arolwg ar-lein roedd fersiwn hirach o'r Cwestiynau Cyffredin ynghyd â gwybodaeth oedd yn rhy fanwl i'w chynnwys gyda'r llythyr gwahodd. Roedd yr wybodaeth ychwanegol a gynhwyswyd yn y Cwestiynau Cyffredin ar-lein yn ymwneud yn bennaf â'r arolwg ei hun, gan gynnwys:
- rhagor o fanylion am y ffordd y byddai'r data a ddarparwyd yn cael ei ddefnyddio;
 - y broses ar gyfer adrodd am broblemau technegol gyda'r arolwg;
 - sut i ddarparu adborth am yr arolwg i'r LIC; a
 - sut y sicraodd IFF fanylion personol y cyfranogwyr yn ddiogel.

Mynd ar ôl ymatebion

- 7.3 I annog busnesau i ymateb, aethpwyd ar ôl ymatebion dros y ffôn o 12 Rhagfyr 2019 hyd 5 Chwefror 2020. O'r sampl o 8000 o fusnesau, cysylltwyd â 7,108 (89%) ac aeth 347 yn eu blaenau i gwblhau'r arolwg.

Metrigau eraill ar gyfer mynd ar ôl ymatebion

- 7.4 Mae'r cyfrifiad ceisiadau'n cofnodi'r nifer o geisiadau a wnaed i gysylltu â phob busnes yn ystod yr ymarfer mynd ar ôl ymatebion. Llwyddwyd i gyrraedd y mwyafrif o fusnesau o fewn galwad neu ddwy, er bod angen mynd ar ôl eraill ragor o weithiau na hynny [Tabl 5]. Ar gyfartaledd, y nifer o weithiau y ceisiwyd cysylltu oedd 2.14.

Tabl 5: Manylion yr ymarfer mynd ar ôl ymatebion yn ôl cyfrifiad o'r ceisiadau

Cyfrifiad ceisiadau	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14
Nifer	2,856	1,392	743	384	200	129	69	40	32	18	4	2	1	3

- 7.5 Ar gyfartaledd, roedd ymatebwyr yn cymryd 8.2 o ddyddiau i gyflwyno eu data o'r pwynt pan oeddent wedi gorffen eu sgwrs gyda'r cyfwelydd ffôn. O'r 520 o ymatebwyr a dderbyniodd alwad i fynd ar ôl ymateb ac a aeth ymlaen wedyn i gwblhau'r arolwg yn llwyddiannus (yn cynnwys y rheiny nad oeddent wedi cytuno'n eglur i gwblhau, er enghraifft y rheiny y gadawyd neges ar eu ffonau), pasiodd cyfartaledd o 9.8 o ddyddiau rhwng derbyn yr alwad a chyflwyno'r arolwg; aeth 32% (168) o'r ymatebwyr a dderbyniodd alwad ymlaen i gwblhau data a'i gyflwyno o fewn 24 awr i dderbyn yr alwad, tra bo 44% (227) wedi cymryd mwy nag wythnos.

8. Cyfraddau ymateb

- 8.1 Cyflawnwyd cyfradd ymateb gychwynnol o 14%, gyda 1,101 o ymatebwyr yn cymryd rhan yn yr arolwg allan o 7,964⁶ posibl o fusnesau. O'r 1,101 hyn o ymatebion, cwblhaodd cyfanswm o 1,061 o ymatebwyr adrannau gwerthiannau a/neu bryniannau'r arolwg (cyfradd ymateb gyfan o 13%) heb i unrhyw anghysondebau gael eu codi o fewn eu data, ac felly defnyddiwyd y rhain ar gyfer y gwaith dadansoddi. Cyflwynodd nifer ychydig bach mwy o fusnesau arolygon gyda'r adran gwerthiannau wedi'i chwblhau (1,054) na'r rhai lle'r oedd yr adran pryniannau'n gyflawn (964), cyflwynodd 957 o fusnesau adrannau cyflawn ar gyfer y ddau. Er bod y gyfradd ymateb hon yn is na'r gyfradd a amcangyfrifwyd yn wreiddiol (20%) doedd hynny ddim yn siomedig o ystyried mor gymhleth oedd yr arolwg a'r ffaith ei bod yn flwyddyn beilot.

⁶ Tynnwyd cyfanswm o 36 o fusnesau o'r sampl posibl cyfan o 8,000 er mwyn cyfrifo cyfradd ymateb AMC (dychwelwyd llythyrau'r busnesau hyn i IFF ac nid oedd modd canfod unrhyw fanylion eraill ar eu cyfer, fel y trafodwyd eisoes ym mharagraff 6.2).

- 8.2 O ran y cyfraddau ymateb gan fusnesau mewn perthynas â maint y busnes (ar sail gwerthoedd cyflogaeth y DU yn yr IDBR); gan y busnesau maint canolig y cafwyd y gyfradd ymateb uchaf (18%), tra bo'r gyfradd ymateb isaf (6%) gan fusnesau maint micro [Tabl 6].

Tabl 6: Cyfraddau ymateb yn ôl maint y busnes

	Yr holl ymatebion	Wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad	Sampl	Y gyfradd ymateb
Micro (3-9)	115	106	1,677	6%
Bach (10-49)	515	497	3,386	15%
Canolig (50-249)	301	291	1,601	18%
Mawr (250+)	170	167	1,300	13%
Cyfanswm	1,101	1,061	7,964	13%

Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

- 8.3 Roedd y gyfradd ymateb yn weddol gyson ar draws y gwahanol sectorau busnes, ond cafwyd y cyfraddau ymateb uchaf (15%) yn y sectorau Busnesau a Gwasanaethau Eraill a Gweithgynhyrchu [Tabl 7].

Tabl 7: Cyfraddau ymateb yn ôl sector y busnes

	Yr holl ymatebion	Wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad	Sampl	Y gyfradd ymateb
Busnesau a Gwasanaethau Eraill ⁷	365	345	2,317	15%
Adeiladu	95	93	738	13%
Gweithgynhyrchu	187	181	1,178	15%
Sector Diwydiannau Cynradd a Chyfleustodau	50	48	409	12%
Masnach, Llety a Chludiant	404	394	3,322	12%
Cyfanswm	1,101	1,061	7,964	13%

Ffynhonnell: Arolwg Masnach Cymru 2018

⁷ Cafodd y sectorau eu grwpio'n bum categori drwy gydol y gwaith prosesu a dadansoddi data. Yn dilyn ymgynghoriad gyda LIC, cytunwyd y byddai'r sectorau grŵp yn defnyddio grwpïad sector safonol a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr, ond cyfunwyd "Gwasanaethau anfasnachol" gyda "Busnesau a gwasanaethau eraill" oherwydd y meintiau gwaelodol isel.

9. Dilysu

- 9.1 Roedd yr holiadur ar-lein yn cynnwys dau fath gwahanol o wiriad dilysu awtomatig, i dynnu sylw at unrhyw anghysondebau neu ddata anarferol:
- Defnyddiwyd **gwiriadau dilysu ‘meddal’** i holi'r ymatebwyr am unrhyw wallau neu anghysondebau posibl yn y data yn ystod yr arolwg. Diben y gwiriadau hyn oedd canfod a chywiro (cyn belled ag y bo modd) unrhyw wallau damweiniol a wnaed gan yr ymatebwyr wrth iddynt roi eu ffigurau i mewn, ac i'w hysbysu mewn achosion lle gallent fod wedi camddeall y cwestiwn. Roedd pob gwiriad yn cynnig cyfle i'r ymatebwyr fynd yn ôl a diwygio eu data; neu, os oedd yr ymatebwr yn sicr bod yr wybodaeth yr oedd wedi ei rhoi yn gywir, gellid diystyru'r gwiriadau hyn gan amlaf (ac mewn sefyllfa fel hyn gofynnwyd i'r ymatebwyr ysgrifennu esboniad).
 - Rhedwyd **gwiriadau dilysu terfynol** yn awtomatig ar bob ymateb arolwg a gyflwynwyd, er mwyn tynnu sylw at unrhyw wallau neu anghysondebau posibl oedd ar ôl yn yr arolwg a fyddai'n gwneud yr ymateb yn annilys. Roedd unrhyw achos oedd yn methu un neu fwy o'r gwiriadau dilysu terfynol yn mynd ymlaen i gael eu gwirio ac i gael addasu eu data os oedd angen gwneud hynny; gwnaed y gwiriadau hyn drwy gyfuniad o ymchwil ddesg a ffonio'r ymatebwyr yn ôl.
- 9.2 Ochr yn ochr â'r gwiriadau dilysu oedd wedi eu rhaglennu, gwnaed IFF wiriadau sicrhau ansawdd eraill ar y data unwaith yr oedd y gwaith maes wedi dod i ben. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar sylwadau a roddwyd yn yr arolwg i asesu a oedd unrhyw ymatebwyr wedi tynnu sylw at broblemau penodol wrth gwblhau'r arolwg a allai wneud eu hymatebion yn llai dibynadwy.

10. Dadansoddi

- 10.1 Defnyddiwyd y dull arwyddocâd safonol wrth ddadansoddi gwahaniaethau mewn data categoriaidd yn AMC (e.e. y nifer o fusnesau mewn gwahanol fandiau maint a ddywedodd eu bod yn allforio i wlad benodol), gan dderbyn lefel hyder o 95% (y lefel hyder nodweddiadol a ddefnyddir wrth ddehongli arwyddocâd ystadegol).

Maint y busnesau

- 10.2 Trwy gydol gwaith prosesu a dadansoddi data AMC, cafodd y busnesau eu grwpio'n gategorïau ar sail y nifer o weithwyr cyflogedig oedd ganddynt (maint y busnes). Roedd dwy ffordd bosibl o ddyrannu busnesau yn ôl eu maint: ar sail y nifer o gyflogeion oedd ganddynt yn gweithio yng Nghymru (a nodwyd yn AMC) neu yn unol â gwerthoedd cyflogaeth y DU (a nodwyd yn yr IDBR). At ddibenion dadansoddi, cafodd y busnesau eu grwpio'n dri band maint i'w dadansoddi, yn unol â'u gwerthoedd cyflogaeth yn y DU [Tabl 8].
- 10.3 Defnyddiwyd gwerthoedd cyflogaeth y DU er mwyn sicrhau bod y meintiau sylfaenol yn ddigon mawr i'w dadansoddi ac i sicrhau bod modd eu cymharu'n well gyda data Cyllid a Thollau Ei

Mawrhydi ac ONS, yn ogystal â'r ffaith bod tystiolaeth anecdotaidd o'r prawf gwybyddol yn dangos bod y mwyafrif o fusnesau'n gwneud penderfyniadau masnach ar sail eu gweithredoedd cyffredinol yn y DU.

Tabl 8: Grwpiau maint y busnesau

Band maint y busnes	Nifer y cyflogeion yn y DU (IDBR)
Bach	3-49
Canolig	50-249
Mawr	250+

Grwpio'r sectorau

- 10.4 Darparodd yr IDBR god Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid i bob busnes yn AMC, ond mae'r rhain wedi eu grwpio i sicrhau fod gan bob grŵp sail ddigon mawr i'w dadansoddi [Tabl 9].

Tabl 9: Grwpio'r sectorau

Y grŵp chwe sector safonol	Cod SIC 2 ddigid
Busnesau a gwasanaethau eraill	Gwybodaeth a chyfathrebu Gweithgareddau ariannol ac yswiriant Gweithgareddau eiddo tirol Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol Gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol a chymorth Y celfyddydau, difyrrwch a hamdden Gweithgareddau gwasanaethau eraill
Adeiladu	Adeiladu
Gweithgynhyrchu	Gweithgynhyrchu
Diwydiannau Cynradd a Chyfleustodau	Amaeth, coedwigaeth a physgota Cloddio a Chwarela Cyflenwad Trydan, Nwy, Stêm ac Aerdymheru Cyflenwi dŵr; gweithgareddau carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adferiad
Masnach, llety a chludiant	Masnach cyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau modur a beiciau modur

Y grŵp chwe sector safonol	Cod SIC 2 ddigid
	Cludiant a storio
	Gweithgareddau gwasanaethau llety a bwyd
Gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â marchnad	Addysg
	Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol
	Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyniad; nawdd cymdeithasol gorfodol

10.5 Cyfunwyd y gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â marchnad gyda'r Busnesau a gwasanaethau eraill am fod maint y seiliau'n fach, ac felly defnyddiwyd y pum categori a ganlyn drwy gydol gwaith prosesu data a dadansoddi AMC:

- *Busnesau a gwasanaethau eraill*
- *Adeiladu*
- *Gweithgynhyrchu*
- *Diwydiannau Cynradd a Chyfleustodau*
- *Masnach, llety a chludiant*

Priodoli

10.6 I gael y maint mwyaf posibl o ddata y gellid ei ddadansoddi allan o'r arolwg, defnyddiwyd gwerthoedd (ymatebion) oedd wedi eu nodi yn yr arolwg i briodoli data i fodelu gwerthoedd oedd ar goll o ymatebion eraill. Roedd hyn yn golygu cyfrifo beth oedd cyfraneddau cyfartalog y gwerthiannau/pryniannau, yn ôl y nwyddau a'r gwasanaethau neu'r gwahanol gyrchnodau (e.e. i weddill y DU), ymysg busnesau tebyg o fewn yr arolwg a defnyddio'r cyfraneddau cyfartalog hynny i ddosrannu'r ffigur cyfanswm perthnasol a roddwyd gan ymatebwyr, er mwyn llenwi eu hatebion coll.

Y cwestiynau a gynhwyswyd

10.7 Trwy'r arolwg drwyddo draw, roedd opsiwn i ymatebwyr ateb cwestiynau 'bocs tic' oedd yn gofyn i ba gyrchnodau (e.e. Cymru, gweddill y DU) yr oedden nhw'n gwerthu, ac yna gwestiwn dilynol yn gofyn am werthoedd y gyrchnodau hyn a ddetholwyd. Gwnaed y gwaith priodoli pan oedd yr ymatebwr yn ateb cwestiwn bocs tic ond yn methu darparu'r gwerthoedd gwirioneddol dilynol [Tabl 10]. Er enghraifft, pan oedd busnes yn rhoi tic i ddangos bod ganddynt werthiannau Nwyddau yng Nghymru a gweddill y DU (ac nid gweddill yr Undeb Ewropeaidd na gweddill y byd), ond nid

oeddent wedi dosrannu gwerth eu gwerthiannau Nwyddau cyfan rhwng Cymru a'r DU, yna roedd y gwerthoedd yn cael eu priodoli.

Tabl 10: Enghraifft o sefyllfaoedd pan ddefnyddiwyd priodoli

Math	Y busnes yn darparu gwerth cyfan ar gyfer...	...ac yna'n dethol is-gategoriâu neu gyrchnodau yr oeddent wedi gwerthu iddynt...	...ond yna heb ddarparu gwerthoedd ar gyfer unrhyw rai o'r rheiny a ddewiswyd
1	e.e. Cyfanswm Gwerthiannau 2018	e.e. Nwyddau a gwasanaethau yn 2018	e.e. dim gwerth ar gyfer Nwyddau a Gwasanaethau yn 2018
2	e.e. Cyfanswm Gwerthiannau Nwyddau	e.e. Cymru a'r DU	e.e. dim gwerth ar gyfer Cymru a'r DU
3	e.e. Cyfanswm Gwerthiannau Nwyddau yn y DU	e.e. Lloegr a'r Alban	e.e. dim gwerth ar gyfer Lloegr a'r Alban

10.8 Priodolwyd gwerthoedd coll ar sail dosraniad y ffigur cyfan perthnasol a ddarparwyd gan yr ymatebwr yn unol â chyfraneddau cyfartalog y gwerthiannau/pryniannau a wnaed i bob cyrchnod gan fusnesau a) o fath tebyg a b) oedd wedi dewis yr un cyfuniad o gyrchnodau.

a) Busnesau o fath tebyg

10.9 Cyfrifwyd cyfraneddau cyfartalog o fewn grwpiau priodoli oedd yn grwpio busnesau yn ôl eu maint a'u sector, gan olygu mai dim ond o werthoedd busnesau tebyg y cafodd gwerthoedd eu cyfrifo. Ni chyfrifwyd y gwerthoedd mewn grŵp heblaw bod o leiaf 10 o fusnesau eraill wedi darparu yn union yr un gwerthoedd yn yr un gell â'r cofnod oedd angen priodoliad. O ganlyniad, crëwyd tri grŵp priodoli i gyfrif am y gwahanol feintiau gwaelodol ymhob un o'r gwahanol gyfuniadau maint a sector. Defnyddiwyd gwerthoedd cyflogaeth a gwybodaeth y sector o fewn yr IDBR i ddyrannu ymatebwyr i'r grwpiau perthnasol. I grynhoi:

- Seiliwyd Grŵp Priodoli 1 ar y 21 cod sector a'r 4 band maint;
- Cyfunodd Grŵp Priodoli 2 y codau sector yn 5 grŵp ehangach ond cadwyd y 4 band maint; a
- Chadwodd Grŵp Priodoli 3 y 5 grŵp sector ehangach yn debyg i Grŵp 1, ond cyfunodd y bandiau maint hefyd yn 2 fand ehangach.

Os oedd busnes oedd angen ei briodoli'n disgyn i gell grŵp priodoli lle'r oedd llai na 10 busnes wedi rhoi union werthoedd, yna cawsent eu dosrannu i'r grŵp priodoli ar y lefel nesaf i lawr, e.e. os oedd gan eu cell yng ngrŵp priodoli 1 lai na 10 busnes, yna roedd yn rhaid defnyddio eu cell yng ngrŵp priodoli 2 [Tabl 11].

Tabl 11: Categoriâu'r Grwpiau Priodoli

Grŵp Priodoli	Y sector o'r diwydiant a gynhwyswyd	Y band maint a gynhwyswyd
1	<ol style="list-style-type: none"> 1. Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd 2. Gweithgareddau sefydliadau a chyrrff alldiriogaethol 3. Gweithgareddau cartrefi fel cyflogwyr; gweithgareddau cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau diwahaniaeth cartrefi at eu defnydd eu hunain 4. Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth 5. Amaeth, coedwigaeth a physgota 6. Y celfyddydau, difyrrwch a hamdden 7. Adeiladu 8. Addysg 9. Cyflenwad Trydan, Nwy, Stêm ac Aerdymheru 10. Gwasanaethau ariannol ac yswiriant 11. Gwasanaethau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol 12. Gwybodaeth a chyfathrebu 13. Gweithgynhyrchu 14. Cloddio a chwarela 15. Gweithgareddau gwasanaethau eraill 16. Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol 17. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyniad; nawdd cymdeithasol gorfodol 18. Gweithgareddau eiddo tirol 19. Cludiant a storio 20. Cyflenwi dŵr; gweithgareddau carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adferiad 21. Masnach gyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau modur a beiciau modur 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Micro 2. Bach 3. Canolig 4. Mawr
2	<ol style="list-style-type: none"> 1. Y Sector Diwydiannau Cynradd a Chyfleustodau 2. Gweithgynhyrchu 3. Adeiladu 4. Masnach, Llety a Chludiant 5. Busnesau a Gwasanaethau Eraill 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Micro 2. Bach 3. Canolig 4. Mawr
3	<ol style="list-style-type: none"> 1. Y Sector Diwydiannau Cynradd a Chyfleustodau 2. Gweithgynhyrchu 3. Adeiladu 4. Masnach, Llety a Chludiant 5. Busnesau a Gwasanaethau Eraill 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Micro/Bach 2. Canolig/Mawr

b) Yr un cyfuniad o gyrchnodau

Heblaw am y cwestiynau hynny oedd yn gofyn am rannu'r gwerth cyfan rhwng y nwyddau a'r gwasanaethau, ar gyfer pob gwahanol fath o gwestiwn roedd nifer o wahanol gyfuniadau o gyrchnodau y gallai busnesau fod wedi eu dethol [Tabl 12]. Cyfrifwyd y cyfraneddau cyfartalog dim ond ymysg busnesau oedd hefyd wedi dewis yr un un cyfuniad o gyrchnodau yng nghell y grŵp priodoli.

Tabl 12: Enghraifft o gyfuniadau o gyrchnodau**Lleoliadau a ddedholwyd ar gyfer gwerthiannau nwyddau**

#	Cymru	DU	Gweddill yr UE	Gweddill y Byd	Enghraifft o gyfuniad
1	le	Na	Na	Na	WXXX
2	le	le	Na	Na	WUXX
3	le	le	le	Na	WUEX
4	le	le	le	le	WUER

A hefyd, y 12 cyfuniad oedd yn weddill ar gyfer y gyfres hon o gwestiynau

- 10.10 O fewn celloedd y grwpiau priodoli hyn o fathau tebyg o fusnesau a'r un cyfuniad o gyrchnodau, cyfrifwyd beth oedd cyfraneddau cyfartalog y gwerthiannau neu'r pryniannau ar draws y gyrchnodau hyn, yn hytrach na'r gwerthoedd ariannol cyfartalog. Yna cyfrifwyd y gwerthoedd oedd ar goll ar gyfer pob cofnod drwy ddefnyddio'r cyfraneddau cyfartalog hyn ar gyfer y gwerth cyfan gwirioneddol a roddwyd gan y busnes hwnnw [Tabl 13]. Er enghraifft, os dywedodd busnes bod ganddo werthiannau Nwyddau o £1,000 yn 2018, ond nid oedd wedi dweud sut roedd hynny wedi'i ymrannu rhwng Cymru, y DU, gweddill yr UE a gweddill y byd, defnyddiwyd y cyfraneddau cyfartalog fel isod:

Tabl 13: Enghraifft o'r ffordd y defnyddiwyd cyfraneddau cyfartalog

	Nwyddau	Cymru	DU	Gweddill yr UE	Gweddill y Byd
Y cyfraneddau cyfartalog a gyfrifwyd	100%	17%	63%	14%	6%
Y gwerthoedd a ddarparwyd cyn priodoliad	£1,000	-	-	-	-
Y gwerthoedd ar ôl priodoli	£1,000	£170	£630	£140	£60

- 10.11 Yn gyfan, cyfrifwyd priodoliad ar draws 64 o newidynnau, gan ganiatáu i gyfanswm o 723 o werthoedd, ar draws 81 o fusnesau, gael eu priodoli. Ar draws y 64 newidyn hyn, y nifer uchaf o werthoedd i bob newidyn y gellid eu priodoli oedd 29, a'r isaf oedd 0. Roedd y canran uchaf o'r gwerthoedd cyfan a briodolwyd yn amrywio o 0% i 3.5%.

Pwysoliad

- 10.12 Cafodd data'r arolwg eu pwysoli a'u grosio at gyfanswm poblogaeth y busnesau, yn ôl IDBR 2018. Dyma oedd yr ystadegau diweddaraf oedd ar gael am y boblogaeth fusnes a gyhoeddwyd gan ONS ar y pryd pan weithredwyd y pwysoli ar sail y ffrâm samplu.
- 10.13 Er bod yr arolwg wedi casglu gwybodaeth am werthiannau a phryniannau yn 2017 ac yn 2018, cafodd y data eu pwysoli ar gyfer y ddau gyfnod gan ddefnyddio ffigurau IDBR 2018. Y rheswm

am hynny oedd mai ffigurau IDBR 2018 oedd y rhai mwyaf diweddar oedd ar gael a nhw oedd y sail ar gyfer y ffrâm samplu. Data Arolwg Masnach Cymru 2018 oedd ffocws dadansoddiad yr adroddiad canfyddiadau.

- 10.14 Yn gyfan, crëwyd pedwar pwysoliad, dau bwysoliad 'ar sail unedau' a dau bwysoliad 'ar sail trosiant', Crëwyd y ddau fath hyn o bwysoliad i gyfrif am y ffaith bod oddeutu hanner yr arolwg wedi casglu gwerthoedd trosiant a'r hanner arall wedi casglu ymatebion i gwestiynau bocs ticio oedd yn addas ar gyfer cael eu pwysoli i gynrychioli'r boblogaeth fusnes yng Nghymru yn nhermau unedau adrodd. Defnyddiwyd y pwysoliad 'ar sail unedau' i ddadansoddi cwestiynau sail 'bocs ticio/codau' a defnyddiwyd pwysoliad 'sail trosiant' i ddadansoddi cwestiynau oedd wedi eu seilio ar drosiant.
- 10.15 Crëwyd un pwysoliad 'ar sail uned' ac un pwysoliad 'sail trosiant' ar gyfer yr holl fusnesau oedd wedi cwblhau adran werthiannau'r arolwg a phâr arall ar gyfer yr holl fusnesau oedd wedi cwblhau'r adran pryniannau. Roedd angen dau bwysoliad ar wahân am fod rhai ymatebwyr wedi darparu data cyflawn, glân ar gyfer un adran ond nid y llall, ac felly roedd y nifer o ymatebion arolwg yn wahanol ymhob adran.
- 10.16 Roedd y broses bwysoli/grosio yn cynnwys y camau a ganlyn:
- Cam 1: Cyfrifo dau bwysoliad 'heb ymateb' yn eu cymharu â sampl gychwynnol yr arolwg;
 - Cam 2: Cyfrifo dau bwysoliad grosio 'ar sail uned' a 'sail trosiant' ar gyfer y boblogaeth gyfan;
 - Cam 3: Lluosi'r pwysoliadau hyn â'i gilydd i greu'r pedwar pwysoliad terfynol yr oedd eu hangen.

Cam 1: Pwysoliadau'r nifer na roddodd ymateb

- 10.17 Am nad oedd yr arolwg yn orfodol, roedd rhywfaint o amrywiad naturiol yn y cyfraddau ymateb rhwng gwahanol fathau o fusnesau a achosodd i broffil yr arolwg wahaniaethu ychydig oddi wrth broffil sampl gychwynnol yr arolwg. Er enghraifft, roedd 28% o'r sampl yn fusnesau bach eu maint, ond dim ond 20% oedd y canran o fusnesau bach a gwblhaodd adran gwerthiannau'r arolwg. I addasu ar gyfer y gwahaniaethau hyn, cyfrifwyd y pwysoliadau 'dim ymateb', gan ddefnyddio RIM (dull iteradd ar hap) a defnyddiwyd y rhain i ddod â phroffil yr arolwg yn gyfatebol â'r sampl.
- 10.18 Cyfrifwyd dau bwysoliad 'dim ymateb' (un ar gyfer busnesau a gwblhaodd yr adran gwerthiannau, ac un ar gyfer busnesau a gwblhaodd yr adran pryniannau) drwy gymharu proffil cyfweiliadau a gwblhawyd gyda'r 8,000 o fusnesau yn y sampl gychwynnol. Cymharwyd y newidynnau a, lle'r oedd gwahaniaeth o 2 neu fwy o bwyntiau canran rhwng y proffil cyfweiliadau a gyflawnwyd a'r proffil sampl, ddefnyddiwyd pwysoliad 'dim ymateb' [Tabl 14].

Tabl 14: Y newidynnau a ddefnyddiwyd i gyfrifo pwysoliad y nifer na roddodd ymateb

Newidyn	Grŵp
Cyflogaeth y Sector (5 band)	<ol style="list-style-type: none"> 1. Y Sector Diwydiannau Cynradd a Chyfleustodau 2. Gweithgynhyrchu 3. Adeiladu 4. Masnach, Llety a Chludiant 5. Busnes a Gwasanaethau Eraill
Maint (Cyflogeion y DU IDBR, 4 band)	<ol style="list-style-type: none"> 1. Micro (<10 o gyflogeion) 2. Bach (10-49 o gyflogeion) 3. Canolig (50- 249 o gyflogeion) 4. Mawr (250+ o gyflogeion)
Trosiant IDBR (wedi bandio)	<ol style="list-style-type: none"> 1. <£1 miliwn 2. £1 miliwn - <£5 miliwn 3. £5 miliwn - <£10 miliwn 4. £10 miliwn - <£20 miliwn 5. £20 miliwn - <£50 miliwn 6. £50 miliwn - <£100 miliwn 7. £100 miliwn+
Rhanbarth (IDBR)	<ol style="list-style-type: none"> 1. AA. Gogledd Ddwyrain Lloegr 2. Gogledd Orllewin Lloegr (BA BB) 3. DC. Swydd Efrog a'r Humber 4. ED. Dwyrain Canolbarth Lloegr 5. FE. Gorllewin Canolbarth Lloegr 6. GF. Dwyrain Lloegr 7. GG. Dwyrain Lloegr 8. HH. Llundain 9. JG. De Ddwyrain Lloegr 10. KJ. De Orllewin Lloegr 11. WW. Cymru
Nifer y canghennau yng Nghymru (wedi'u bandio);	<ol style="list-style-type: none"> 1. 0 2. 1 3. 2 4. 3+
A yw'r busnes cyfan yng Nghymru?	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ydy 2. Nac ydy

Cam 2: Cyfrifo pwysoliad gros 'ar sail unedau' ac 'ar sail trosiant'

10.19 Defnyddiwyd y pwysoliadau 'dim ymateb' ar gyfer y data, ac yna cyfrifwyd pedwar grid pwysoliad gwahanol, yn grwpio celloedd yn ôl pedwar band maint a phum band sector (y nifer leiaf o fusnesau mewn unrhyw un gell oedd chwech ac felly ni chafwyd unrhyw gyfuno celloedd) [Tabl 15].

Tabl 15: Grwpio'r gridiau pwysoli

Bandiau maint	Bandiau sector
<ol style="list-style-type: none"> 1. Micro (<10) 2. Bach (10-49) 3. Canolig (50- 249) 4. Mawr (250+) 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Y Sector Diwydiannau Cynradd a Chyfleustodau 2. Gweithgynhyrchu 3. Adeiladu 4. Masnach, Llety a Chludiant 5. Busnes a Gwasanaethau Eraill

Roedd y pedwar grid pwysoli gwahanol yn cymharu'r:

- (1) Nifer o unedau (gwerthiannau) a gyflawnwyd yn yr arolwg o'i gymharu â'r boblogaeth
- (2) Nifer o unedau (pryniannau) a gyflawnwyd yn yr arolwg o'i gymharu â'r boblogaeth
- (3) Cyfanswm y trosiant (gwerthiannau) yn yr arolwg o'i gymharu â'r boblogaeth

(4) Cyfanswm y trosiant (pryniannau) yn yr arolwg o'i gymharu â'r boblogaeth

- 10.20 Ar gyfer y ddau **grid uned**, crëwyd pwysoliad ar gyfer pob cell yn y gridiau i grosio'r nifer o gofnodion ymhob cell i'r nifer o fusnesau oedd yn y gell honno o fewn y boblogaeth h.y. os oedd 20 o gofnodion yn y gell ac roedd 100 yn y boblogaeth, yna derbyniodd bob cofnod bwysoliad o 5. Ni ddefnyddiwyd gwerthoedd cyflogaeth y DU a nodwyd yn yr arolwg. Y rheswm am hynny oedd y farn, yn ystod y cam glanhau data, nad oedd y gwerthoedd hyn a nodwyd yn yr arolwg mor gwbl ddbynadwy â chyflogaeth IDBR. Mae'n debyg bod hynny'n wir am fod yr arolwg wedi ei gwblhau mewn rhai achosion gan staff oedd yn gwybod am y busnes oedd wedi ei seilio yng Nghymru ond nid o anghenraid am y trosolwg ar gyfer y DU gyfan. Felly, cyfrifwyd y gridiau uned gan ddefnyddio'r gwerthoedd cyflogaeth a ddarparwyd yn yr IDBR.
- 10.21 Ar gyfer y **gridiau trosiant**, crëwyd pwysoliad ar gyfer pob un o gelloedd y gridiau i grosio cyfanswm y trosiant i bob cell (o'r boblogaeth ac o'n sampl a gyflawnwyd) a'i ddefnyddio i bob £ o drosiant fel bod pob ymatebwr yn y gell honno'n cael pwysoliad oedd yn berthnasol i'w hunion faint o drosiant. Defnyddiwyd ffigur trosiant yr IDBR a ddarparwyd yn newidynnau ategol y sampl oherwydd, er bod yr arolwg yn gofyn am drosiant Cymru yn benodol, roedd maes trosiant IDBR yn ymwneud â throsiant y DU ac roedd angen ffigur trosiant dibynadwy i grosio iddo.

Cam 3: Creu'r pedwar pwysoliad terfynol

- 10.22 Yna, lluoswyd y ddau bwysoliad 'ar sail uned' a'r ddau bwysoliad 'sail trosiant' hyn gyda'r ddau bwysoliad 'dim ymateb' gwreiddiol am werthiannau/pryniannau i greu'r pedwar pwysoliad terfynol [Tabl 16].

Tabl 16: Y pedwar pwysoliad terfynol

Pwysoliad	Defnyddiwyd ar gyfer dadansoddi...
1 UNEDGWERTHIANNAU_PWYSOLIAD	Cwestiynau wedi eu codio yn adran Gwerthiannau'r arolwg
2 TROSIANTGWERTHIANNAU_PWYSOLIAD	Cwestiynau am werth yn adran Gwerthiannau'r arolwg
3 UNEDPRYNIANNAU_PWYSOLIAD	Cwestiynau wedi eu codio yn adran Pryniannau'r arolwg
4 TROSIANTPRYNIANNAU_PWYSOLIAD	Cwestiynau am werth yn adran Pryniannau'r arolwg

11. Atodiadau

Atodiad A: Rhestr o'r sectorau a gynhwyswyd yn y sampl a'r rhai a eithriwyd

Yr adran yn y SIC	Disgrifiad	Nodiadau (Codau SIC a eithriwyd)
A	Amaeth, coedwigaeth a physgota	
B	Cloddio a chwarela	Eithriwyd 06
C	Gweithgynhyrchu	
D	Cyflenwad Trydan, Nwy, Stêm ac Aerdymheru	
E	Cyflenwi dŵr; gweithgareddau carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adferiad	
F	Adeiladu	
G	Masnach gyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau modur a beiciau modur	Eithriwyd 47799
H	Cludiant a storio	Eithriwyd 4932
I	Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd	Eithriwyd 5629, 56301
J	Gwybodaeth a chyfathrebu	
K	Gwasanaethau ariannol ac yswiriant	Eithriwyd 642, 6411
L	Gweithgareddau eiddo tirol	
M	Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	
N	Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth	Eithriwyd 791, 8299, 79901, 79909
O	Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyniad; nawdd cymdeithasol gorfodol	EITHRIWYD OLL
P	Addysg	Eithriwyd 851, 852
Q	Gwasanaethau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol	EITHRIWYD OLL
R	Y celfyddydau, difyrrwch a hamdden	Eithriwyd 93, 9101
S	Gweithgareddau gwasanaethau eraill	Eithriwyd 94, 96
T	Gweithgareddau cartrefi fel cyflogwyr; gweithgareddau cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau diwahaniaeth cartrefi at eu defnydd eu hunain	EITHRIWYD OLL
U	Gweithgareddau sefydliadau a chyrrff alldiriogaethol	EITHRIWYD OLL

Atodiad B: Llythyr gwahodd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[Contact]
[Company]
[Company2]
[Address]
[Postcode]
[Date]

Arolwg Masnach Cymru

Annwyl [Contact],

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich cymorth i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae busnesau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru'n rhyngweithio gyda chwsmeriaid a chyflenwyr ledled y DU a thu hwnt.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i ddatblygu amgylchedd cryf lle gall busnesau ffynnu. Mae'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd am allforion o Gymru a mewnfurion i Gymru yn gyfyngedig iawn. Felly, rydym wedi comisiynu IFF Research i wneud arolwg masnach ar ein rhan fel y gallwn gael gwell dealltwriaeth o batrymau masnach busnesau sydd wedi eu seilio yng Nghymru, neu sydd â safleoedd yng Nghymru.

Byddem yn gwir werthfawrogi ychydig o'ch amser i gwblhau'r arolwg erbyn 9 Rhagfyr 2019. Dyma'r casgliad data cyntaf a'r unig un penodol i Gymru am fasnach, felly byddem yn gwir werthfawrogi eich cyfraniad. Yr unigolyn gorau i gwblhau'r arolwg hwn, yn debygol o fod, fydd y Cyfarwyddwr Cyllid neu'r Rheolwr Ariannol yn eich sefydliad. Os nad chi yw hwnnw neu honno, a fydddech cystal â throsglwyddo i'r unigolyn mwyaf priodol os gwelwch yn dda.

Gallwch agor yr arolwg drwy fynd i'r wefan hon a nodi'r cod mynediad sy'n unigryw i'ch busnes chi:

Gwefan: www.Gov.wales/TradeSurvey
Cod mynediad: [ID]

Bydd yr wybodaeth a ddarparwch yn gwella gallu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau strategol a bydd yn:

- Canfod a gwella anghenion cymorth busnesau;
- Cefnogi cystadleurwydd a chynhyrchiant yng Nghymru;
- Cryfhau'r achos ynghylch yr hyn sydd bwysicaf i Gymru wrth negodi cytundebau masnach yn y dyfodol;
- Darparu gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o economi Cymru gydag ystadegau economaidd newydd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ddilysrwydd yr astudiaeth, ffoniwch ein tîm Dadansoddwyr Masnach yn Llywodraeth Cymru os gwelwch yn dda ar [REDACTED]. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â sut i lenwi'r arolwg, neu'r cefndir i'r arolwg, anfonwch e-bost i [REDACTED] neu ffoniwch ein llinell gymorth ar [REDACTED].

Mae IFF Research yn gwarantu y bydd yr holl wybodaeth a ddarparwch yn yr arolwg hwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol. Bydd yr arolwg yn cael ei weinyddu yn unol ag egwyddorion GDPR, Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad, a phrotocolau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Bydd pob enw a'r holl fanylion cysylltu'n cael eu dileu o gofnodion IFF dri mis ar ôl cwblhau'r arolwg hwn. Mae gennych hawl i gael copi o'ch data, newid eich data neu dynnu allan o'r gwaith ymchwil unrhyw bryd. Os hoffech wneud hynny, gallwch ymgynghori â'n gwefan ar: iffresearch.com/gdpr. Gallwch ddarllen rhagor am yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg hwn drwy fynd i'r wefan yn y blwch gwyrdd uchod.

Yn gywir iawn

Jonathan Price, Prif Economegydd
Llywodraeth Cymru

Canllaw cam wrth gam ...

Cam 1 – Beth sydd ei angen arnaf i gychwyn?

Eich llythyr, mae'n cynnwys:

Gwefan: www.Gov.wales/TradeSurvey
Peidiwch â defnyddio chwilotwr
Cod mynediad: [ID]

Cam 2

Teipiwch y wefan ym mar cyfeiriad eich porwr gwe, fel y gwelwch yma...



www.Gov.wales/TradeSurvey

Step 3

Ar y dudalen sydd â'r teitl '**Croeso i Arolwg Masnach Cymru**' cliciwch ar y blwch sy'n nodi: '**Cliciwch yma i agor yr arolwg**'

Cam 4

Yn y blwch a welwch, nodwch y cod mynediad sydd yn eich llythyr gwahodd, yna rydych yn barod i gwblhau Arolwg Masnach Cymru!

Am beth fydd y cwestiynau ...

Cefndir eich busnes

Gan gynnwys: lleoliad pencadlys, nifer y gweithwyr, ac os oedd unrhyw werthiannau o Gymru yn 2017 neu 2018

Gwerth gwerthiannau ac allforion ar gyfer...

Gwerth pryniannau a mewforion ar gyfer...

Nwyddau, Gwasanaethau, 2017 / 2018

Gwerth gwerthiannau nwyddau i...

Gwerth gwerthiannau gwasanaethau i...

Gwerth pryniannau nwyddau o...

Gwerth pryniannau gwasanaethau o...

Gymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, gweddill yr UE a gweddill y Byd

Y 5 prif nwydd/gwasanaeth a allforiwyd a'u cyrchnodau ym 2017/2018

Y 5 prif nwydd/gwasanaeth a fewforiwyd a'u gwreiddyn ym 2017/2018

Unrhyw wybodaeth arall yr hoffech roi am eich gwerthiannau/bryniannau ar gyfer 2017/2018



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[Contact]
[Company]
[Address]
[Postcode]
[Date]

Helpwch ni i wneud Cymru yn lle gwell i wneud busnes

Annwyl [Contact2],

Efallai y byddwch yn cofio derbyn gwahoddiad i gwblhau arolwg gan Lywodraeth Cymru am eich busnes.

Drwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o fusnesau fel eich un chi, gallwch ein helpu i adeiladu amgylchedd lle gall busnesau ffynnu. Dyma'r cyntaf, a'r unig, gasgliad data penodol i Gymru ar fasnach, felly ymunwch â'r cannoedd o fusnesau yng Nghymru sydd eisoes wedi cymryd rhan.

Rydym wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer yr arolwg i **29 Ionawr 2020** a byddem yn gwerthfawrogi pe gallech gyflwyno eich ymateb erbyn hynny. Yr unigolyn gorau i gwblhau'r arolwg hwn, yn debygol o fod, fydd y Cyfarwyddwr Cyllid neu'r Rheolwr Ariannol yn eich sefydliad. Os nad chi yw hwnnw neu honno, a fydddechystal â throsglwyddo i'r unigolyn mwyaf priodol os gwelwch yn dda.

Gallwch agor yr arolwg drwy fynd i'r wefan hon a nodi'r cod mynediad sy'n unigryw i'ch busnes chi:

Gwefan: www.Gov.wales/TradeSurvey

Cod mynediad: [ID]

Bydd yr wybodaeth a ddarparwch yn helpu Llywodraeth Cymru i wella cymorth busnes, ac i gyflwyno'r achos dros yr hyn sydd bwysicaf i Gymru wrth negodi cytundebau masnach y dyfodol.

Rydym wedi comisiynu IFF Research i wneud yr arolwg hwn ar ein cyfer. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â sut i lenwi'r arolwg, neu'r cefndir i'r arolwg, e-bostiwch [redacted] neu ffoniwch eu llinell gymorth ar [redacted], neu gwelwch y Cwestiynau Cyffredin ar-lein.

Yn gywir

Jonathan Price, Prif Economegydd
Llywodraeth Cymru

Mae IFF Research yn gwarantu y bydd yr holl wybodaeth a ddarparwch yn yr arolwg hwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol. Bydd yr arolwg yn cael ei weinyddu yn unol ag egwyddorion GDPR, Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad, a phrotocolau Gwasanaeth Ystadegol Llywodraeth y DU. Bydd pob enw a'r holl fanylion cysylltu'n cael eu dileu o gofnodion IFF dri mis ar ôl cwblhau'r arolwg hwn. Mae gennych hawl i gael copi o'ch data, newid eich data neu dynnu allan o'r gwaith ymchwil unrhyw bryd. Os hoffech wneud hynny, gallwch ymgynghori â gwefan IFF ar: iffresearch.com/gdpr. Gallwch ddarllen rhagor am yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg hwn drwy ymweld â'r wefan yn y blwch gwyrrdd uchod.

Canllaw cam wrth gam...

Cam 1 – Beth sydd ei angen arnaf i gychwyn?

Eich llythyr, mae'n cynnwys:

Gwefan: www.Gov.wales/TradeSurvey
Peidiwch â defnyddio chwilotwr
Cod mynediad: [ID]

Cam 2

Teipiwch y wefan ym mar cyfeiriad eich porwr gwe, fel y gwelwch yma...

 www.Gov.wales/TradeSurvey


Step 3

Ar y dudalen sydd â'r teitl '**Croeso i Arolwg Masnach Cymru**' cliciwch ar y blwch sy'n nodi:
'Cliciwch yma i agor yr arolwg'

Cam 4

Yn y blwch a welwch, nodwch y cod mynediad sydd yn eich llythyr gwahodd, yna rydych yn barod i gwblhau Arolwg Masnach Cymru!

Am beth fydd y cwestiynau ...





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[Contact]
[Company]
[Address]
[Postcode]
[Date]

Helpwch ni i ddeall anghenion eich busnes wrth i ni baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd – eich cyfle olaf i gyfranogi!

Annwyl [Contact2],

Efallai y byddwch yn cofio derbyn gwahoddiadau i gwblhau arolwg gan Lywodraeth Cymru am eich busnes.

Ymunwch â'r cannoedd o fusnesau sydd wedi cymryd rhan yn barod i sicrhau bod eich diwydiant yn cael ei gynrychioli. Dyma'r casgliad data cyntaf — a'r unig gasgliad data — yn benodol i Gymru am fasnach; dim ond ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan y mae gwybodaeth fanwl ar gael am fasnach. Trwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o weithgareddau busnesau fel eich busnes chi yng Nghymru, byddwch yn ein helpu i adeiladu amgylchedd lle gallwch chi ffynnu.

Mae gennych hyd **29 Ionawr 2020** i gwblhau'r arolwg. Mae'n debyg mai'r unigolyn gorau yn eich sefydliad i gwblhau'r arolwg hwn fydd y Cyfarwyddwr Cyllid neu'r Rheolwr Ariannol. Os nad chi yw hwnnw neu honno, a fydddech chi cystal â throsglwyddo hwn i'r unigolyn mwyaf priodol os gwelwch yn dda.

Gallwch agor yr arolwg drwy fynd i'r wefan hon a nodi'r cod mynediad sy'n unigryw i'ch busnes chi:

Gwefan: www.Gov.wales/TradeSurvey
Cod mynediad: [ID]

Rydym wedi comisiynu IFF Research i wneud yr arolwg masnach hwn ar ein cyfer. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â sut i lenwi'r arolwg, anfonwch e-bost i [redacted] neu ffoniwch [redacted], neu gwelwch y Cwestiynau Cyffredin ar-lein.

Bydd yr wybodaeth a ddarparwch nid yn unig yn helpu i wella'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru'n ei gynnig i fusnesau, bydd hefyd yn helpu i ddangos beth yw'r pethau pwysicaf i fusnesau ledled Cymru yn ystod trafodaethau i sicrhau cytundebau masnach.

Yn gywir iawn
Jonathan Price, Prif Economegydd
Llywodraeth Cymru

Mae IFF Research yn gwarantu y bydd yr holl wybodaeth a ddarparwch yn yr arolwg hwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol. Bydd yr arolwg yn cael ei weinyddu yn unol ag egwyddorion GDPR, Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad, a phrotocolau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Bydd pob enw a'r holl fanylion cysylltu'n cael eu dileu o gofnodion IFF dri mis ar ôl cwblhau'r arolwg hwn. Mae gennych hawl i gael copi o'ch data, newid eich data neu dynnu allan o'r gwaith ymchwil unrhyw bryd. Os hoffech wneud hynny, gallwch ymgynghori â gwefan IFF ar: iffresearch.com/gdpr. Gallwch ddarllen rhagor am yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg hwn drwy ymweld â'r wefan yn y blwch gwyrdd uchod.

Canllaw cam wrth gam...

Cam 1 – Beth sydd ei angen arnaf i gychwyn?

Eich llythyr, mae'n cynnwys:

Gwefan: www.Gov.wales/TradeSurvey
Peidiwch â defnyddio chwilotwr
Cod mynediad: [ID]

Cam 2

Teipiwch y wefan ym mar cyfeiriad eich porwr gwe, fel y gwelwch yma...



www.Gov.wales/TradeSurvey


Step 3

Ar y dudalen sydd â'r teitl '**Croeso i Arolwg Masnach Cymru**' cliciwch ar y blwch sy'n nodi: '**Cliciwch yma i agor yr arolwg**'

Cam 4

Yn y blwch a welwch, nodwch y cod mynediad sydd yn eich llythyr gwahodd, yna rydych yn barod i gwblhau Arolwg Masnach Cymru!

Am beth fydd y cwestiynau ...



Atodiad E: Yr Arolwg

Arolwg Masnach Cymru

Y dudalen lanio

Croeso i Arolwg Masnach Cymru.

Mae hwn yn arolwg newydd sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o'r llifoedd masnach i mewn ac allan o fusnesau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru

Rydym wedi comisiynu sefydliad ymchwil annibynnol, IFF Research Ltd, i gasglu'r data hwn ar ein rhan. Bydd unrhyw ddata a rowch yn cael ei ddal fel data masnachol cyfrinachol. Bydd pob data sy'n cael ei ddarparu'n cael ei ddal yn ddiogel

I agor yr arolwg, nodwch y cod mynediad sydd yn eich llythyr gwahodd os gwelwch yn dda:

YSGRIFENNWCH Y COD MYNEDIAD	
-----------------------------	--

Hysbysiad preifatrwydd

Gweinyddir yr arolwg hwn yn unol ag egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a Chod Ymarfer y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Mae Llywodraeth Cymru'n glynu at God Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU, sy'n nodi y dylai Sefydliadau edrych ar ôl gwybodaeth pobl yn ddiogel a rheoli data mewn ffyrdd sy'n gyson gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol a gwasanaethu er lles y cyhoedd. Felly, bydd yr holl enwau a manylion cysylltu'n cael eu dileu o gofnodion IFF 6 mis ar ôl cwblhau'r prosiect hwn. Mae gennych yr hawl i dderbyn copi o'ch data, newid eich data neu dynnu allan o'r ymchwil unrhyw bryd. Os hoffech wneud hynny, gallwch ymgynghori â'n gwefan yn: iffresearch.com/gdpr.

Gallwch ddarllen rhagor am yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg yma: <https://llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru-hysbysiad-preifatrwydd>

Arolwg Masnach Cymru

Ynglŷn â chwblhau'r arolwg:

- os byddwch chi'n clicio 'Cadw a pharhau yn nes ymlaen' bydd yr arolwg yn cadw eich data os byddwch eisiau dod yn ôl i'w gwblhau yn nes ymlaen
- os byddwch yn mynd i drafferth, gallwch ffonio ein llinell gymorth neu anfon e-bost atom. Cliciwch 'Cysylltu â ni' ar waelod y dudalen i weld y manylion hyn
- i gael rhagor o wybodaeth, gallwch gyfeirio at y Cwestiynau Cyffredin sydd i'w cael ar waelod y dudalen
- cwblhewch yr holiadur hwn ar sail cyfrifyddu croniadau (anfonebau a godwyd), yn hytrach nag ar sail cyfrifyddu arian
- gallwch gwblhau'r arolwg yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Defnyddiwch y botwm [x] i newid o un iaith i'r llall os hoffech newid yr iaith.

Gweithrediadau yng Nghymru

- Byddwn yn gofyn i chi roi data am weithrediadau (neu ganghennau) y busnes yng Nghymru.
- Os oes gan y busnes nifer o ganghennau ar draws y Deyrnas Unedig, **rhowch y data wedi ei gasglu ynghyd ar gyfer y canghennau yng Nghymru sy'n adrodd i chi.**
- Os oes gennych nifer o weithrediadau yng Nghymru, yna dylai'r wybodaeth a rowch chi gynnwys pob un sy'n adrodd i chi.

Os ydych yn masnachu nwyddau neu wasanaethau gyda **rhannau eraill o'ch busnes** sydd y tu allan i'ch gweithrediadau yng Nghymru sy'n derbyn sylw yn yr arolwg hwn, dylech gyfrifo'r rhain fel gwerthiannau/pryniannau i gwsmer annibynnol, a rhoi'r gwerth hwn iddo. Os na allwch chi roi'r ffigurau hyn ar y sail yma, rhowch werth iddyn nhw fel cost trosglwyddo.

Byddwn yn gofyn i chi roi gwybodaeth ar gyfer gweithrediadau'r busnes yng Nghymru, gan gynnwys:

- gwerth gwerthiannau/allforion ar gyfer 2017 a 2018
- gwerth pryniannau/mewnfurion ar gyfer 2017 a 2018
- ar gyfer pob un o'r uchod:
 - y gwerth yn ôl yr ardal ddaearyddol (Cymru, Yr Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon, gwledydd yr Undeb Ewropeaidd fel cyfanswm, gwledydd nad ydynt yn yr Undeb Ewropeaidd fel cyfanswm)
 - y 5 prif nwydd / gwasanaeth sy'n cael eu masnachu
 - y 5 prif wlad o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig rydych yn masnachu â nhw

Os nad oes gennych wybodaeth fanwl gywir sydd ar gael yn hawdd i chi, rhowch eich amcangyfrif gorau

Bydd yr arolwg yn gofyn i chi am ddata 2017 a 2018. I wneud hyn, defnyddiwch flynyddoedd calendr yn hytrach na blynyddoedd ariannol:

- 2017: 1 Ionawr 2017 hyd 31 Rhagfyr 2017
- 2018: 1 Ionawr 2018 hyd 31 Rhagfyr 2018

Os yw'n anodd i chi gael gafael ar yr wybodaeth hon, rhowch eich amcangyfrif gorau os gwelwch yn dda.

A Cefndir y busnes

GOFYNNWCH I BAWB

A1 Ymhle mae eich pencadlys?

DEWISWCH UN ATEB

Cymru	1	
Lloegr	2	
Yr Alban	3	
Gogledd Iwerddon	4	
Arall (manylwch os gwelwch yn dda)	5	

GOFYNNWCH I BAWB

A2 Ar Ionawr 31 2018 faint o weithwyr cyflogedig oedd yn y busnes ar gyfer y canlynol?

Cynhwyswch

- bob gweithiwr oedd yn cael eu talu'n uniongyrchol o gyflogres(i) y busnes hwn
- y gweithwyr oedd yn absennol dros dro ond yn dal i gael eu talu, er enghraifft ar absenoldeb mamolaeth

Peidiwch â chynnwys

- perchnogion oedd yn gweithio ond oedd ddim yn cael eu talu drwy dalu wrth ennill (PAYE).
- gweithwyr gwirfoddol
- gweithwyr hunangyflogedig
- gweithwyr asiantaeth oedd yn cael eu talu'n uniongyrchol o gyflogres asiantaeth allanol

YSGRIFENNWCH RIF OS GWELWCH YN DDA

_1 Busnes cyfan y DU	YSGRIFENNWCH YMA
_2 Y busnes yng Nghymru	YSGRIFENNWCH YMA

NEGES AM WALL: Rydych wedi dweud wrthym yn barod nad yw eich pencadlys yng Nghymru, ond rydych wedi dweud isod bod eich gweithwyr cyflogedig i gyd wedi eu seilio yng Nghymru. Adolygwch eich ffigurau os gwelwch yn dda

NEGES AM WALL: Ni all y nifer o gyflogeion yr ydych wedi ei nodi yng Nghymru fod yn fwy na nifer y gweithwyr cyflogedig yr ydych wedi ei nodi yn y DU gyfan.

GOFYNNWCH I BAWB

Yn 2017 neu 2018, a wnaeth gweithrediad y busnes yng Nghymru unrhyw WERTHIANNAU (gan gynnwys ALLFORIO) NWYDDAU NEU WASANAETHAU?

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y dylai gwerthiannau ei gynnwys cliciwch yma:

Mae'r Gwerthiannau'n cynnwys:

Pob gwerthiant nwydd a gwasanaeth (heblaw asedau cyfalaf sefydlog). Heb gynnwys Treth ar Werth (TAW).

- Gwerthiannau allforio.
- Mae gwerthiant nwyddau a gwasanaethau i gwsmeriaid sydd ddim fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig yn cyfrif fel allforion, e.e. gwerthiannau manwerthu i dwristiaid neu wasanaethau llety sy'n cael eu darparu i bobl nad ydynt yn drigolion. Efallai nad yw hi'n bosibl gwybod beth yw'r gwerthoedd hyn yn union, byddai eich brasamcan gorau yn ddefnyddiol iawn.
- Darparu nwyddau neu wasanaethau i rannau eraill o'ch busnes sydd y tu allan i'r gweithredoedd yng Nghymru sy'n derbyn sylw yn yr arolwg hwn. Dylech roi gwerth i'r rhain fel petaen nhw wedi cael eu gwerthu i gwsmer annibynnol. Os na allwch chi roi gwerth i'r rhain yn y ffordd yma, rhowch y costau trosglwyddo mewnol o fewn eich busnes os gwelwch yn dda.
- Nwyddau sydd wedi cael eu prynu a'u hailwerthu heb eu prosesu.
- Gwaith sy'n cael ei wneud ar ddefnydd cwsmeriaid, cynhwyswch werth unrhyw ddefnyddiau eraill sy'n cael eu hychwanegu.
- Incwm o werthu unrhyw weithgaredd adeiladu a gwasanaethau sy'n cael eu darparu.
- Incwm gwerthu o'r holl wasanaethau rydych yn eu darparu sy'n ddiwydiannol a sydd ddim yn ddiwydiannol.
- Taliadau cynnydd sy'n cael eu derbyn am waith sydd wrthi'n digwydd ar gontractau tymor hir.
- Dylai gwerthiannau gwasanaeth gynnwys incwm sy'n dod o'r hawl i ddefnyddio cynhyrchion anniriaethol. Mae hyn yn cynnwys trwyddedu a breindaliadau o fasnachfreintiau, hawlfreintiau, dyluniadau, patentau, nodau masnach ac ati.
- Mae gwerthiannau gwasanaeth yn cynnwys incwm sy'n deillio o rentu eiddo.
- Gwerthu gwasanaethau pacio, cludiant ac yswiriant.
- Incwm sy'n dod o weithgareddau ar is-gontract.
- Ar gyfer gwaith comisiwn, cynhwyswch ddim ond y ffi comisiwn ac nid pris y trafodiad cyfan.
- Gwerth talebau, tocynnau a chwponau sy'n cael eu defnyddio gan gwsmeriaid fel ffordd o dalu (ond nid gwerthiant talebau o'r fath i gwsmeriaid).
- Comisiwn neu rent gan fusnesau eraill sy'n masnachu ar safle sy'n eiddo i chi.
- Incwm neu gomisiwn o werthiannau ar-lein.
- Mae gwerthiannau gwasanaethau'n cynnwys incwm o weithgareddau trwsio a gosod oedd heb eu cyfrif yn barod yng ngwerth y nwydd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y dylai gwerthiannau ddim eu cynnwys, cliciwch yma

Mae gwerthiannau'n cynnwys:

- Treth ar Werth (TAW).
- Yr allbwn ar gyfer ei ddefnydd terfynol ei hun.
- Arian a dderbyniwyd o werthiant asedau cyfalaf sefydlog.
- Incwm o werthiant eiddo deallusol. Incwm yn deillio o rentu tir.
- Disgowntiau ac ad-daliadau ar werthiannau.
- Gwerthiant nwyddau ail law nad ydynt yn berthnasol i'ch busnes craidd

CODAU LLUOSOG:.

	A3_2017	A3_2018
Do, cafodd y busnes werthiannau mewn nwyddau	1	1
Do, cafodd y busnes werthiannau mewn gwasanaethau	2	2
Naddo, ni wnaeth y busnes unrhyw werthiannau [DS – COD UNIGOL]	3	3

GOFYNNWCH I'R RHEINY SYDD HEB WNEUD UNRHYW WERTHIANNAU (A3_1 = 3 NEU A3_2=3)

A3a **Pam na wnaeth gweithredoedd y busnes yng Nghymru unrhyw werthiannau yn 2017 neu 2018?**
COD UNIGOL.

Stopiodd y busnes fasnachu	1	STATWS=WEDI PEIDIO MASNACHU
Roedd y busnes yn segur	2	STATWS=SEGUR
Roedd y busnes yn gweithredu ond ni wnaeth unrhyw werthiannau (e.e. am ei fod ar y cam cychwynnol)	3	
Cafodd yr allbynnau eu trosglwyddo i ddechrau i ran(nau) o'r busnes sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru	4	
Arall (manylwch os gwelwch yn dda) TESTUN ARWEINIOL: Bydd yr wybodaeth hon yn ein helpu i ddilysu eich data a dylai olygu bod llai o angen i ni eich ffonio i holi ynghylch unrhyw ffigurau	5	METHU – ANGEN ADOLYGU'R LLAWLYFR

GOFYNNWCH I'R RHEINY SYDD AG ALLBYNNAU SY'N CAEL EU TROSGLWYDDO'N FEWNOL Y TU ALLAN I GYMRU (A3A = 4)

A3atext **Trwy gydol yr arolwg, pan fyddwch yn rhoi gwerthoedd eich gwerthiannau, cynhwyswch unrhyw allbynnau a gafodd eu trosglwyddo'n fewnol i ran(nau) o'r busnes sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru. Os na allwch chi roi gwerth iddyn nhw yn y ffordd yma, rhowch y costau trosglwyddo mewnol o fewn eich busnes os gwelwch yn dda. LLYWIWCH YN ÔL I A3**

OS YW A3A = 3 (MAE'R BUSNES YN WEITHREDOL OND NI CHYNNHYRCHODD WERTHIANNAU)

A3b **Pam na wnaeth y busnes unrhyw werthiannau yn 2017 neu 2018?**

COD UNIGOL

Ni wnaeth y busnes unrhyw werthiannau yn ystod y cyfnod	1	
Roedd y busnes yn ei gyfnod sefydlu, neu mewn cyfnod o ymchwilio a datblygu	2	
Dechreuodd y busnes fasnachu ar ôl 2018	3	
[COD UNIGOL] Arall (manylwch os gwelwch yn dda) TESTUN ARWEINIOL: Bydd yr wybodaeth hon yn ein helpu i ddilysu eich data a dylai olygu bod llai o angen i ni eich ffonio i holi ynghylch unrhyw ffigurau	4	

B GWERTHIANNAU 2017 a 2018 (yn cynnwys ALLFORION) o'ch gweithrediadau yng Nghymru

GOFYNNWCH I BAWB A GAFODD ALLFORION/GWERTHIANNAU YN 2017/18 ((A3_1 =1 NEU 2) NEU (A3_2=1 NEU 2))

B1 Beth oedd cyfanswm gwerth eich GWERTHIANNAU (gan gynnwys ALLFORION) o'ch gweithrediadau sydd wedi eu seilio yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd calendr 2017 a 2018? Cynhwyswch unrhyw allbwn gafodd ei drosglwyddo'n fewnol i ran(nau) o'r busnes sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.

Pan fydd gwerthiannau'n cynnwys cyfuniad o nwyddau a gwasanaethau ac ni allwch roi gwerth iddyn nhw ar wahân, ystyriwch nhw naill ai yn 'nwyddau' neu'n 'wasanaethau' ar sail y categori lle mae

cyfran fwyaf gwerth y gwerthiant. Os nad ydych yn gwybod yr union werthoedd (neu os nad oes gwybodaeth ar gael yn rhwydd), rhowch eich amcangyfrif gorau os gwelwch yn dda. Os nad oes gennych unrhyw wybodaeth i ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau ar wahân, nodwch fel '£0' os gwelwch yn dda a darparu ffigur y cyfanswm yn unig.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y dylai gwerthiannau ei gynnwys cliciwch yma

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn na ddylai gwerthiannau ei gynnwys cliciwch yma

I gael rhagor o arweiniad am werthiannau o sectorau penodol cliciwch yma

Wrth adrodd am werthiannau, ystyriwch leoliad y gangen yr ydych yn gwneud eich trafodion â hi, heb ystyried lleoliad y pencadlys na phwy yw'r perchennog global

- **Adeiladu** - Mae gwerthiannau'n cael eu hystyried yn allforion os ydyn nhw'n ymwneud â chontractau tymor o lai na blwyddyn sy'n cael eu rheoli o Gymru ac mae'r gweithwyr cyflogedig sy'n gweithredu'r contract wedi eu seilio yng Nghymru fel arfer.
- **Addysg** - Mae gwerthiannau'n cyfeirio at incwm sy'n deillio o ffioedd, patentau, gwaith ymchwil, arholiadau ac ati. Mae allforio addysg yn cynnwys ffioedd gan fyfyrwyr tramor ac incwm arall o'r tu allan i'r DU.
- **Gwasanaethau ariannol** - Mae gwerthiannau gwasanaethau banciau a chymdeithasau adeiladu wedi eu diffinio fel llog net a dderbyniwyd yn ogystal â ffioedd (gan gynnwys yr holl gomisiynau a ffioedd) ac enillion ar drafodion cyfnewid tramor. Dylai cwmnïau rheoli cronfeydd gyfri ffioedd sy'n cael eu cynhyrchu drwy ffioedd rheoli buddsoddiadau a ffioedd sy'n cael eu cynhyrchu o waith cyngori a gweithrediadau perthnasol eraill. Mae allforion yn ffioedd o'r tu allan i'r DU ac maen nhw'n net o dreuliau tramor. Dylai delwyr gwarannau ddarparu enillion ymledol (elw o ddelio wedi tynnu elwon i'w dal), gydag enillion o dramor yn cael eu cyfrif fel allforion. Mae gwerthiannau yswiriant sy'n ymwneud â ffioedd am wasanaeth yswiriant, h.y. premiymau wedi tynnu hawliadau, ar gyfer yswiriant uniongyrchol fel yswiriant iechyd, eiddo a chcludiant; mae allforion y rhain yn cyfeirio at y balansau perthnasol gyda chwsmeriaid tramor. Mae gwerthiannau yswiriant bywyd yn cynnwys y gwasanaethau tanysgrifio sy'n gysylltiedig â pholisïau tymor hir, ac mae'r gwasanaethau cronfa bensiwn yn cynnwys y taliadau am wasanaeth sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn.
- **Gwasanaethau Iechyd a Phersonol** - Mae darparu triniaethau iechyd, deintyddol, optegol, harddwch a sba ac ati i bobl nad ydynt yn drigolion yn cyfri fel allforion. Dim ond ffioedd preifat ddylid eu cynnwys, a dim adnoddau sy'n cael eu darparu gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- **Gwestai, Ilety, bwytaï ac arlwy** - Er nad yw hi'n bosibl efallai i nodi yn union beth yw eich gwerthiannau i gwsmeriaid sy'n byw y tu allan i Gymru a'r DU, byddai eich brasamcan gorau wrth roi'r manylion hyn yn ddefnyddiol iawn.
- **Manwerthu** - Mae gwerthiannau i dwristiaid ac ymwelwyr eraill â'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â gwerthiannau ar-lein sy'n cael eu danfon y tu allan i'r DU, yn cyfri fel allforion. Yn yr un modd, dylech ystyried gwerthiannau i gwsmeriaid y DU sydd ddim fel arfer yn byw yng Nghymru fel gwerthiannau i weddill y DU. Er nad yw hi'n bosibl efallai i nodi yn union beth yw'r gwerthiannau hyn i gwsmeriaid sy'n byw y tu allan i Gymru a'r DU, byddai eich brasamcan gorau wrth roi'r manylion hyn yn ddefnyddiol iawn.
- **Gwasanaethau Cludiant** - Pan mae eich busnes yn darparu cludiant nwyddau, ystyrir y taliadau am y gwasanaethau hyn fel eich gwerthiannau. Ni ddylech gynnwys gwerth y nwyddau heblaw bod eich busnes chi wedi gwerthu'r rhain hefyd, ac os felly, dylech eu cofnodi ar wahân fel gwerthiannau nwyddau. Os ydych yn cludo allforion o'r DU i wlad dramor, mae'r gwerthiannau cludo hyn yn cael eu hystyried yn allforion. Yn yr un modd, os ydych chi'n cludo nwyddau o Gymru i weddill y DU mae hyn yn cyfri fel gwerthiant eich gwasanaeth i weddill y DU. Mae gwasanaethau cludo teithwyr yn cynnwys y refeniw o docynnau teithwyr a gwariant y teithwyr wrth iddyn nhw gael eu cludo. Mae pryniant gwasanaethau cludiant gan bobl nad ydynt yn drigolion yn allforion. Os nad oes rhifau union ar gael gennych, rhowch eich brasamcanion gorau os gwelwch yn dda. Mae taliadau sy'n cael eu derbyn gan feysydd awywr, porthladdoedd a darparwyr gwasanaethau tebyg gan gludwyr tramor yn cael eu cyfrif fel allforion. Mae rhentu ceir ac offer cludo eraill i bobl nad ydynt yn drigolion yn allforion.

NODYN AR GYFER RHAGLENNU'R HOLIADUR: DANGOSWCH FLYCHAU YSGRIFENNU I MEWN AR GYFER CODAU SYDD WEDI EU DETHOL YN A3 YN UNIG OS GWELWCH YN DDA

RHOWCH Y GWERTH MEWN PUNNOEDD OS GWELWCH YN DDA, HEB GYNNWYS TAW

	GWERTHIANNAU 2017	GWERTHIANNAU 2018
Nwyddau	£	£
Gwasanaethau	£	£
Cyfanswm gwerthiannau	£	£

OS YW B1 'CYFANSWM GWERTHIANNAU' ≠ 'NWDYDDAU' + 'GWASANAETHAU' AR GYFER 2017 A ('NWDYDDAU' > 0 A 'GWASANAETHAU' > 0 AR GYFER 2017)

B1a Nid yw gwerthiannau eich nwyddau a'ch gwasanaethau yn adio i roi gwerth y 'gwerthiannau cyfan' ar gyfer 2017. Ydy'r ffigurau hyn yn gywir?

NODYN AR GYFER RHAGLENNU'R HOLIADUR: RHOWCH Y FFIGURAU I MEWN O B1

Cyfanswm gwerthiannau ar gyfer 2017: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Cyfanswm gwerthiannau nwyddau ar gyfer 2017: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Cyfanswm gwerthiannau gwasanaethau ar gyfer 2017: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Ydyn	1	
Na	2	DYCHWELWCH I B2 I AIL NODI'R FFIGURAU

OS YW FFIGURAU 2017 YN GYWIR (B1a = 1)

B1b Allwch chi esbonio pam nad yw'r cyfanswm gwerthiannau nwyddau a gwasanaethau'n adio i roi'r cyfanswm ar gyfer 2017?

YSGRIFENNWCH I MEWN

OS YW B1 'CYFANSWM GWERTHIANNAU' ≠ 'NWDYDDAU' + 'GWASANAETHAU' AR GYFER 2018 A ('NWDYDDAU' > 0 A 'GWASANAETHAU' > 0 AR GYFER 2018)

B1c Nid yw gwerthiannau eich nwyddau a'ch gwasanaethau yn adio i roi gwerth y 'gwerthiannau cyfan' ar gyfer 2018. Ydy'r ffigurau hyn yn gywir?

NODYN AR GYFER RHAGLENNU'R HOLIADUR: RHOWCH Y FFIGURAU I MEWN O B1

Cyfanswm gwerthiannau ar gyfer 2018: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Cyfanswm gwerthiannau nwyddau ar gyfer 2018: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Cyfanswm gwerthiannau gwasanaethau ar gyfer 2018: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Ydyn	1	
Na	2	DYCHWELWCH I B1 I AIL NODI'R FFIGURAU

OS YW FFIGURAU 2018 YN GYWIR (B1c = 1)

B1d Allwch chi esbonio pam nad yw'r cyfanswm gwerthiannau nwyddau a gwasanaethau'n adio i roi'r cyfanswm ar gyfer 2018?

YSGRIFENNWCH I MEWN

GOFYNNWCH I BAWB A GAFODD ALLFORION/GWERTHIANNAU YN 2017/18 (A3 =1)

B2 Ydy'r ffigurau GWERTHIANNAU cyfan yr ydych wedi eu nodi yn gywir?

Cyfanswm gwerthiannau ar gyfer 2017: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Cyfanswm gwerthiannau nwyddau ar gyfer 2017: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Cyfanswm gwerthiannau gwasanaethau ar gyfer 2017: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Cyfanswm gwerthiannau ar gyfer 2018: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Cyfanswm gwerthiannau nwyddau ar gyfer 2018: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Cyfanswm gwerthiannau gwasanaethau ar gyfer 2018: £ X BILIWN, X MILIWN, X MIL

Ydyn	1	
Na	2	DANGOSWCH Y TESTUN: Diolch, nodwch nhw eto os gwelwch yn dda [YNA EWCH YN ÔL I B1]

OS YW (YNG NGHYMURU I GYD = Y) O'R SAMPL A ((CYFANSWM GWERTHIANNAU 2018 YN WAHANOL I DROSIANT IDBR (O FWY NA +/- 25%) NEU (NIFER GWERTHIANNAU 2018 A CHYFANSWM GWERTHIANNAU 2017 YN WAHANOL I DROSIANT IDBR (O FWY NA +/- 25%))

B2A A gafwyd unrhyw newidiadau mawr i'r GWERTHIANNAU cyfan ar gyfer y busnes dros y 2 flynedd ddiwethaf?

Do	1	
Naddo	2	

OS OEDD NEWID SYLWEDDOL (B2A=1)

B2b Disgrifiwch y newidiadau yn y GWERTHIANNAU cyfan ar gyfer y busnes yn fwy manwl os gwelwch yn dda

YSGRIFENWCH I MEWN

OS YW (YNG NGHYMURU I GYD = N) O'R SAMPL A ((CYFANSWM GWERTHIANNAU 2018 YN DEBYG I DROSIANT IDBR (YN GWAHANIAETHU O LAI NA +/- 25%) NEU (NIFER GWERTHIANNAU 2018 A CHYFANSWM GWERTHIANNAU 2017 YN DEBYG I DROSIANT IDBR (O LAI NA +/- 25%))

B2C Mae ein diddordeb yn y GWERTHIANNAU ar gyfer eich gweithrediadau yng Nghymru yn unig, yn hytrach na thrwy'r DU gyfan. A yw'r gwerthoedd a roesoch ar gyfer y gweithrediadau yng Nghymru yn unig?

Ydyn	1	
Na	2	DYCHWELWCH I B1 AC YCHWANEGU NEGES ar frig y sgrin 'Newidiwch eich gwerthoedd i ddangos gwerthiannau ar gyfer eich gweithrediadau yng Nghymru yn unig'

B3 Ar gyfer GWERTHIANT Nwyddau o'ch gweithrediadau sydd wedi eu seilio yng Nghymru, dewiswch i ba rai o'r lleoliadau dilynol yr aethon nhw os gwelwch yn dda

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y dylai nwyddau allforion ei gynnwys cliciwch yma

